Bwrlwm yr Ŵyl Cerdd Dant tud. 4 a 5


# Y DINESYDD

Rhagfyr 2023
Ionawr 2024

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro


Rhif 483 £1.20


**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

**I HOLL DDARLLENWYR Y DINESYDD**



*Delyth Medi a Thlws yr Ŵyl*



*Coleg Caerdydd a'r Fro*



*Ysgol Treganna*

**Lluniau o'r Ŵyl Cerdd Dant tud. 4 a 5**

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**John Emyr**

***Golygydd Chwefror***
***Eirian a Gwilym Dafydd***

Cyfraniadau erbyn **27 Ionawr** at:
eirianagwilym@gmail.com
029 20657108

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Dathlu Llwyddiant

Yn y rhifyn hwn o'r *Dinesydd*, ein braint yw dathlu llwyddiant yr Ŵyl Cerdd Dant a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 11 Tachwedd. Digwyddodd y cyfan yn adeilad Coleg Caerdydd a'r Fro – dewis ardderchog. A chawsom wledd o gerddoriaeth Gymreig o safon uchel. Diolch i bawb a weithiodd yn gyson dros wythnosau a misoedd i sicrhau Gŵyl lwyddiannus.

Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd at y rhifyn hwn o'r *Dinesydd*. Hyderaf y byddwch yn mwynhau ei ddarllen.

Yn ogystal â gwerthfawrogi bywyd diwylliannol Caerdydd a Chymru, wrth inni weld rhyfeloedd hen a newydd ymhell ac agos, mae'n briodol inni werthfawrogi gwaith pob unigolyn a sefydliad sy'n ymdrechu i atal trais ac ennill heddwch a chyfiawnder.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Fendithiol i chi i gyd.

*John Emyr*

**Ar Noswyl Nadolig**

Clywais sawl llais yn ddweud llon, ac â'r Ŵyl
  yn grud o obeithion
yma'n glòs, rhy'r hwyrnos hon gofleidiad
fel yng ngalwad dros fil o angylion,

a gwelais fwy nag wylo'n y grenâd
  ar sgrîn hwyr sy'n ffrwydro'n
rhy barhaus, ac erwau bro dan rwbel
o boeri rhyfel, a'r darnau'n brifo,

ond teimlais, hwnt i'r cleisiau (er yn wir,
  yn naïf, rwy'n amau)
*un* nos o hedd yn nesáu, a'r holl fyd
yn gri ddiwyd a gwâr ei weddïau.

*Aron Pritchard*

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*“Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.”*

Bellach dan ni ar drothwy’r Nadolig, a 2023 yn prysur ddirwyn i ben. Mae hi wedi bod yn flwyddyn llawn digwyddiadau, a’r rhyfel yn yr Wcráin wedi hoelio sylw’r byd, a ninnau yng Nghymru wedi gweld lluniau erchyll ar ein setiau teledu, yn ddyddiol bron, o’r dinistr a’r lladd yn y wlad honno o ganlyniad i ymosodiadau ciaidd Rwsia ar y wlad. Fel petai hynny ddim yn ddigon dirdynnol, ers dechrau Hydref dan ni eto yn gweld lluniau erchyll o’r hyn sy’n digwydd yn y Dwyrain Canol.

Dros y blynyddoedd, ers sefydlu gwladwriaeth Israel yn 1948, bu sawl ymdrech i geisio cymodi rhwng y Palestiniaid a’r Israeliaid. Yr agosaf at lwyddiant yn hynny o beth odd cynhadledd *Camp David* a drefnwyd gan yr Arlywydd Clinton yn 2000 pan gyflwynwyd cynllun i sefydlu gwladwriaeth i’r Palestiniaid hefyd. Er i Ehud Barak, prif weinidog Israel ar y pryd, ddangos parodrwydd i dderbyn y cynllun, gwrthodwyd y cyfle gan Yasser Arafat, arweinydd y Palestiniaid. Sylw yr Arlywydd Clinton siomedig wrth Arafat odd, ‘*Dach chi’n arwain eich pobl a’r rhanbarth i drychineb.’* Ymddengys fod yr hyn sy’n digwydd yn y Dwyrain Canol ar hyn o bryd yn ganlyniad methiant *Camp David*.

Flynyddoedd lawer yn ôl, bues i yn nhafarn y *Black Boy* yn nhre Caernarfon pan ofynnodd cofi dre i mi o ble o’n i’n dod, a minnau’n ateb Caerdydd, a’i sylw odd bod gennyn ni bopeth yng Nghaerdydd i gymharu â Chaernarfon! Mor wir y gair, a thros y blynyddoedd mae statws Caerdydd wedi codi a chodi a’r ddinas wedi tyfu a datblygu i fod yn brifddinas deilwng o’n gwlad. Mae dros 400,000 o bobl yn byw yma bellach, hefo 40,000 o’r trigolion yn Gymry Cymraeg.

Ar un adeg odd tre Merthyr Tudful yn fwy na Chaerdydd wedi i deulu’r Crawshays agor gweithfeydd haearn yn y dre gan ddenu miloedd o weithwyr yno o bob cwr, tra odd Caerdydd yn lle bach digon di-nod nes i deulu’r Bute adeiladu dociau yma er mwyn allforio glo o’r cymoedd i bedwar ban byd. Denodd y dociau filoedd o bobl i fyw a gweithio yno, a daeth *Tiger Bay* yn enwog ac odd yn rhoi cartre i bobl o wahanol rannau o’r byd gan droi Caerdydd yn ddinas gosmopolitan. Yn ddiweddar, gwnaeth y gymuned Roegaidd yn y ddinas ddathlu 150 mlwyddiant sefydlu Eglwys Roegaidd Uniongred Sant Nicolas, nawddsant morwyr, yn eu heglwys hardd yn Nhre Bute yn y Bae. Codwyd yr adeilad yn 1873, a’r Tad Nicholas, gynt o Ferthyr, sy’n arwain yr eglwys ar hyn o bryd.

Dan ni’n hynod o lwcus yng Nghaerdydd gan fod gennyn ni gymaint o barciau hyfryd o fewn y ddinas, a Pharc y Rhath yn seren yn eu plith; mae’n denu miloedd yno drwy’r flwyddyn i gerdded o gwmpas y llyn a mwynhau harddwch y parc. Ond yn ddiweddar agorwyd parc arall ar hen safle’r gweithfeydd dŵr yn Llanisien/Llys-faen, ac eisoes mae miloedd yn cael eu denu i fwynhau’r cyfleusterau dŵr a gynigir yn y parc newydd hwnnw. Hefyd, yn ystod yr haf, agorwyd parc arall o’r enw Parc Mackenzie ynghanol y ddinas: parc sy’n coffáu gwraig o’r enw Millicent Mackenzie fu’n Athro Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd rhwng 1910 a 1915. Lleolir y parc hwn tu cefn i’r Amgueddfa a rhwng Park Place a Rhodfa’r Amgueddfa.

Flynyddoedd yn ôl, odd dim llawer o sôn am Wrecsam heblaw am eu cwrw lager, ond bellach, ers i ddau actor enwog o’r Unol Daleithiau brynu tîm pêl-droed Wrecsam, mae’r ddinas yn y newyddion a’r tîm pêl-droed wedi cael dyrchafiad i gynghrair uwch ac yn gwneud yn dda. Ym mis Medi 2022 y rhoddwyd statws dinas i Wrecsam, ac erbyn hyn mae Prifysgol Glyndŵr yn y ddinas wedi newid ei henw i fod yn Brifysgol Wrecsam, sy ddim wrth fodd rhai odd am gadw’r hen enw odd yn coffáu un o arwyr y genedl. Yn ddiweddar, bu ymdrech i geisio prynu safle cartre Glyndŵr yn Sycharth i’r genedl, ond gan fod y safle mewn dwylo preifat nid odd hynny’n bosibl ar hyn o bryd, ond bydd gwaith yn cael ei gyflawni i hwyluso profiad yr holl ymwelwyr sy’n dod i Sycharth o dro i dro i gofio am Owain Glyndŵr.

Mae coeden gastanwydden 480 oed yn dal i sefyll ym Mharc Acton yn Wrecsam, ac mae hi wedi cael sylw eleni gan iddi gael ei chydnabod fel coeden y flwyddyn gan ymddiriedolaeth sy’n rhoi sylw i goed hynafol Prydain. Nôl yn 2016 enillwyd y gystadleuaeth hon gan y goeden sycamorwydden ger Wal Hadrian a loriwyd gan fandaliaid yn ddiweddar. Felly, mae Wrecsam ‘ar y blaen’, chwedl y gân, ac ar ben hyn oll bydd Wrecsam yn gartre i’r Eisteddfod Genedlaethol yn 2025, ac eisoes mae’r brwdfrydedd yn cynyddu wrth i’r ddinas baratoi i groesawu’r miloedd dros yr Eisteddfod.

Siom gafodd tîm pêl-droed Cymru, sgôr gyfartal 1-1, mewn gêm yn erbyn Armenia, a’r un sgôr yn erbyn Twrci. Ond cynhelir gemau ail gyfle ym mis Mawrth i gyrraedd yr *Euros*. Felly dyfal donc piau hi!

Mae’r gêm *Scrabble* yn boblogaidd ers blynyddoedd, a hynny mewn amryw ieithoedd gan gynnwys y Gymraeg, ac o’r mis hwn ymlaen bydd hi’n bosibl ei chwarae yng Ngaeleg yr Alban! Hwyrach y bydd rhai ohonoch yn chwarae’r gêm dros y Nadolig – pawb at y peth y bo yntê! Yn bersonol, dwi’n edrych ymlaen at ddarllen *Yma o Hyd*, sef hunangofiant Dafydd Iwan, a chofiant Hywel Gwynfryn i’r actores enwog Siân Phillips.

Dyma gau pen y mwdwl am 2023 gan edrych ymlaen at gysylltu â chi unwaith eto yn 2024. Tan hynny, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.




*Diolch enfawr i bawb wnaeth gefnogi Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd 2023*

## Un Ŵyl Arbennig Iawn

**Sylwadau Elen Rhys – Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**

Wedi deugain a dwy o flynyddoedd hir, braf oedd croesawu'r Ŵyl yn ôl i seiniau alawon a chroesacenion bywiog y brifddinas, a hynny yng nghalon Caerdydd. Y lleoliad oedd adeilad cyfoes a thrawiadol Coleg Caerdydd a'r Fro – lleoliad oedd yn cynnig popeth a mwy mewn un lle i diwn y dyfodol, a bu'r croeso a'r gefnogaeth gan y Coleg yn gwbl arbennig. Tîm bach a brwdfrydig oedd y Pwyllgor fu'n trefnu, ond bu'r gefnogaeth gan gynifer yn enfawr er mwyn sicrhau ei llwyddiant. Daeth llu i wirfoddoli ar y dydd, yn stiwardiaid a chlercod, ac roedd y lle yn fwrlwm wrth groesawu dros 1500 o gystadleuwyr brwd a thalentog. Am olygfa oedd gweld y lleoliad dan ei sang gydol y dydd a rhyw newydd-deb a ffresni yn perthyn i'r Ŵyl tra'n dathlu ein traddodiadau pwysig.

Mae ein diolch a'n gwerthfawrogiad i gymaint o bobol – yn gystadleuwyr a hyfforddwyr, yn drefnwyr digwyddiadau, yn gyfranwyr rhoddion ariannol a gwobrau hael, yn gefnogwyr, yn wirfoddolwyr a llawer iawn mwy. Ond rhaid diolch yn arbennig i'n noddwyr hael a fu'n ganolog i lwyddiant yr Ŵyl – ein Prif Noddwyr: Cyngor Caerdydd, Coleg Caerdydd a'r Fro a hefyd *Darwin Gray, Bute Energy* ac Ymddiriedolaeth Teulu Pantyfedwen. Diolch i chi i gyd! Gyda'n calonnau yn llawn, gobeithio na fydd hi'n ddeugain a mwy o flynyddoedd cyn i'r ddinas 'forio'r iaith a'i chân frau yn sŵn dinas sy'n dannau'.

**Sylwadau Delyth Medi – Llywydd yr Ŵyl**

Pleser pur oedd bod yn Llywydd yr Ŵyl yma yng Nghaerdydd – Gŵyl sydd wedi mentro symud ymlaen o ran lleoliad. Cawsom ymdeimlad o fwynhad ym mwrlwm y gymdeithas ffres a newydd. Roedd y Tystysgrifau a Thlws yr Wŷl yn adlewyrchu syniadau lliwgar, modern ac roedd y cystadleuwyr a'r gynulleidfa yn frwd eu canmoliaeth. Tîm bach o bobl sydd wedi bod wrth y llyw, tîm fu'n gweithio'n ddiwyd iawn i greu gŵyl draddodiadol ac amserol yn y brifddinas, ac roeddwn yn falch iawn o fod yn rhan o hyn.

Roeddwn reit nerfus yn traddodi araith fer o'r llwyfan ar noson yr Ŵyl – mae'n well gen i ganu o lawer! – ond mwynheais yr atgofion lu a ddaeth i'r cof wrth greu'r araith: atgofion amdanaf yn cystadlu fy hun ar lwyfannau eisteddfodol, a cherdd dant yn rhan anhepgorol o hynny. Cofio derbyn fy ngosodiadau cynnar yn y sol-ffa, a chofio dysgu degau os nad cannoedd o gerddi o'u canu ar gerdd dant.

Cymerais y cyfle i geisio ehangu gorwelion y byd cerdd dant ar hyd a lled y brifddinas yn y cyfnod diweddar hwn. A phleser oedd mynd ati i greu dau gôr cerdd dant newydd, sef Côr Ieuenctid Ysgolion Uwchradd Cymraeg Caerdydd – a lwyddodd i ddenu nifer o ddisgyblion o Ysgolion Plasmawr, Glantaf a Bro Edern i gydganu mewn arddull a oedd yn reit newydd iddynt a hynny mewn modd safonol a graenus – a Chôr Merched Ystum Taf a fu'n ddigon ffodus i ennill cystadleuaeth fawr olaf yr Ŵyl, sef cystadleuaeth y Côr Cerdd Dant agored. Am wefr! – bron i 150 o ddatgeinyddion Cerdd Dant yn canu'n bwerus o'r galon. Dyna brofiad na wnaf ei anghofio'n fuan. A'n gobaith yw dal ati – dyma wir waddol yr Ŵyl. Mae'n gyfnod cyffrous iawn ym myd canu cerdd dant yn y brifddinas!



*Côr Ieuenctid Ysgolion Uwchradd Cymraeg Caerdydd*
'Oedd o'n *amazing*!' – medd un o aelodau'r côr



*Delyth Medi ac Owain Siôn*



*Merched Plastaf*

**Merched Plastaf**

Llongyfarchiadau mawr i Ferched Plastaf yn yr Ŵyl Cerdd Dant yng Nghaerdydd eleni.

Mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn (yn ôl y gwybodusion!), daeth Merched Plastaf i'r brig yn y gystadleuaeth Parti Canu Gwerin Oedran Uwchradd. Da iawn chi, ferched, a llongyfarchiadau i Caryl am arwain mor gelfydd fel arfer. *Ti'n lej*!

Os hoffai darllenwyr y *Dinesydd* weld a chlywed y merched, dewch i Eglwys St. John's Treganna nos Fercher 20 Rhagfyr am 6.30. Bydd cyfle i ymlacio ac ymuno gyda nhw yn Naws y Nadolig. Nid oes angen prynu tocynnau ymlaen llaw - derbynnir cyfraniadau wrth y drws. Bydd raffl a lluniaeth ysgafn ar werth.

**Brwshys Dannedd**



Un peth oedd yn bwysig iawn i'r Pwyllgor Gwaith oedd y gwaddol, a beth fyddai'r Ŵyl yn gallu ei roi yn ôl i'r ddinas. Yn y dyddiau sydd ohoni, gyda chostau byw yn cynyddu, a phobl yn ein gwlad ein hunain, yn ein dinas ein hunain, yn ein cymuned ni, yn brwydro i gadw eu pen uwchben y dŵr, yn methu ymdopi, dyma benderfynu holi'r elusen *Huggard*, sydd â chanolfan o fewn hyd tant i leoliad yr Ŵyl, a allen ni helpu mewn rhyw ffordd. A dyma restr yn cyrraedd. Ond doedd hi ddim yn un hir. Un o'r pethau sydd ei angen ar bobl ddigartref yw brwsh dannedd. Wel, os am fachu ar gyfle, hwn oedd o – cerdd dant … dant … dannedd. A dyna fu. Roedd yr ymateb yn syfrdanol, a diolch i bawb wnaeth gyfrannu dros fil o frwshys/past dannedd.

**Neges gan aelod o'r gynulleidfa**

Braf iawn oedd cael yr Ŵyl Cerdd Dant yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Roedd eistedd yn y gynulleidfa mewn adeilad mor fodern a chyfoes yn brofiad arbennig. Cawsom ein diddanu gan wledd o gystadlu, ac roedd yna deimlad cartrefol iawn yn y Coleg. Roedd ambell un yn gwylio o ben y grisiau hyd yn oed!

Gwych oedd gweld cymaint o ysgolion lleol yn cystadlu yn ogystal â gweld pobl wedi teithio o bell. Roedd safon y perfformiadau'n ardderchog, a bydd llu o berfformiadau'n aros yn y cof. Un o uchafbwyntiau'r diwrnod i mi oedd gweld 147 o ferched yn canu yng nghôr Cerdd Dant Merched Ystum Taf. Tybed a yw hyn yn record am y côr mwyaf sydd wedi bod ar lwyfan? Roedd y sain yn hynod, ac nid wyf wedi gweld telynau'n cyfeilio o lawr y neuadd, yn hytrach nag o'r llwyfan, o'r blaen.

Diolch i bawb a wnaeth drefnu'r Ŵyl.

**Sylwadau am yr Ŵyl Cerdd Dant gan lysgenhadon Coleg Caerdydd a'r Fro**

Roedd yr Ŵyl Cerdd Dant yn anhygoel! Roedd yn hyfryd gweld cymaint o bobl yn cystadlu a chymdeithasu yn y Gymraeg – a hynny yn ein Coleg ni. Cyn gweithio fel llysgennad, doeddwn i ddim wedi clywed am yr Ŵyl Cerdd Dant o gwbl, sydd yn siom enfawr gan fod y profiad wedi bod yn hyfryd. Gweithiais yn bennaf yn rhoi tystysgrifau allan ar y llwyfan i'r enillwyr. Y tro cyntaf es i lan, roeddwn i yn bendant yn nerfus, ond roedd y staff i gyd yn gymwynasgar ac yn wneud yn siŵr bod popeth yn mynd yn iawn. Felly, tua'r diwedd, roeddwn i'n gwybod yn union beth i wneud, ac roedd y swydd wedi bennu lan i fod yn yn dipyn o hwyl.

*Eluned Murray*

Roeddwn i'n falch o weld cymaint o bobl wedi ymgasglu yn ein Coleg ac yn ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r dydd. Fy rôl i yn ystod yr Ŵyl oedd tywys y cystadleuwyr i gefn y llwyfan, a hefyd gwerthu tocynnau a nwyddau ger y ddesg flaen. Roedd gallu siarad a chwrdd â phobl wrth ddefnyddio'r iaith yn fraint, ac roedd hi'n bleser gallu cyfrannu i'r gymuned a helpu mas.

*Jaya Dodiya*

**Yr Ŵyl Cerdd Dant mewn Ffigyrau**

| | |
|---|---|
| **1,500** | o cystadleuwyr |
| **1,002** | o frwshys dannedd a gasglwyd |
| **285** | o boteli jin a werthwyd |
| **147** | o aelodau Côr Cerdd Dant Merched Ystum Taf |
| **43** | o dlysau a enillwyd |
| **12** | o ddigwyddiadau codi arian a gynhaliwyd |
| **5** | o noddwyr hael – diolch yn fawr i chi |
| **3** | o arweinyddion llwyfan hollol wych |
| **1** | artist lleol talentog a luniodd Brint Tlws yr Ŵyl |

**Diolch i'r noddwyr**

Diolch yn fawr iawn i'r noddwyr – fyddai'r Ŵyl ddim wedi bod yn bosibl heb eich cefnogaeth chi.

*Glenys Llewelyn*

**Neges gan Bennaeth Coleg Caerdydd a'r Fro**

Fel y grŵp colegol mwyaf yng Nghymru, roeddem yn falch iawn o roi cartref i'r Ŵyl Cerdd Dant eleni. Roedd yn bleser gennym agor ein drysau i'r perfformwyr dawnus a deithiodd o bob rhan o'r wlad – ac i chwarae ein rhan yn y gwaith o gefnogi achlysur mor arwyddocaol yng nghalendr diwylliannol Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ac i alluogi ein hamrywiaeth hyfryd o ddysgwyr o bob cwr o'r rhanbarth i siarad, dysgu a byw drwy gyfrwng y Gymraeg.

*Sharon James-Evans,*
*Pennaeth Coleg Caerdydd a'r Fro*
*cavc.ac.uk/cy*



***Yr Artist, Anthony Evans gyda Phrint Tlws yr Ŵyl***



# Merched y Wawr Caerdydd

Ein siaradwr gwadd ym mis Tachwedd oedd Maggie Smales a fu'n gweithio i'r BBC yn Affganistan yn y 1990au. Astudiodd Maggie ieithoedd a hanes yn Rhydychen, ac ymhen amser cafodd swydd gyda'r BBC fel rheolwr eu rhaglenni yn y cyn-diriogaethau Sofietaidd. Ar ôl ymddeol, symudodd i Gaerdydd a phenderfynu dysgu Cymraeg – yn dra llwyddiannus rhaid dweud!

Sefydlodd y BBC wasanaeth darlledu yn Affganistan yn sgil goresgyniad y wlad gan yr Undeb Sofietaidd. Roedd y darllediadau yn yr iaith Pashto yn cynnwys rhaglenni dogfen ar bynciau fel malaria, iechyd, amaeth, a rhaglenni addysgol i blant. Mae'r radio yn gyfrwng cyfathrebu a chymdeithasu pwysig mewn gwledydd lle nad oes llawer o ddewisiadau eraill o ran cyrchu a lledaenu gwybodaeth. Yn y 1990au, sylweddolwyd bod opera sebon yn gallu chwarae rhan bwysig wrth drafod materion sensitif a pherthnasol mewn modd hyd braich. Felly, sefydlodd y BBC brosiect addysg drwy ddrama yn y wlad, a daeth *New Home, New Life* yn gyfrwng i drin materion cyfoes fel ffrwydron tir, imiwneiddio, trin clefydau, ynghyd â chwarae rhan bwysig mewn grymuso menywod. Daeth yn rhaglen hynod boblogaidd (ar un adeg roedd 78% o'r boblogaeth yn gwrando'n rheolaidd), a byddai'r Taliban hyd yn oed yn cau llygad gan fod eu gwragedd yn ddilynwyr brwd.




Gwahoddwyd Maggie i fynd i Peshawar ac yna Affganistan fel cynrychiolydd y BBC a chyfryngwr rhwng Llundain a'r criwiau yn y wlad. Roedd symud yno'n dipyn o sioc diwylliannol, a chafodd sawl antur. Un diwrnod cafodd ei hun mewn pentref lle'r oedd pob dyn wrthi'n brysur yn llunio arfau cwbl anghyfreithlon o fetel sgrap. Dro arall croesodd y ffin rhwng Pacistan ac Affganistan yn ddiarwybod, ac yna sylweddoli nad oedd ganddi fisa i groesi nôl. Bu'n rhaid iddi frolio'i rôl yn y BBC cyn cael gweld y conswl a derbyn y fisa hollbwysig. Gwnaeth ffrindiau da yno, ac mae gweld dirywiad y wlad yn destun gofid mawr iddi. Rhoddodd Maggie gipolwg difyr a diddorol i ni ar fywyd yn y wlad gythryblus y bu'n gwasanaethu ynddi.

*Joy Davies*

# Merched y Wawr Bro Radur

Ar 1 Tachwedd daeth Mati Roberts i sôn am gwmni Matico.

Yn 2014 aeth Mati i weithio'n wirfoddol fel nyrs yn Ghana. Yn ystod ei thair blynedd yno, gwelodd pa mor annheg oedd y drefn, gyda'r tlodion yn cael anhawster i dalu am eu haddysg.

Gwelodd hefyd fod y diwydiant tecstiliau traddodiadol dan fygythiad oherwydd yr holl ddillad ail law sy'n cael eu hanfon i'r wlad. Wrth adael Ghana yn 2017, prynodd gyflenwad o ffabrigau lliwgar.

Gofynnodd ffrind iddi wneud lamplen iddi, a dyma gychwyn y syniad o wneud mwy ohonyn nhw gyda'r ffabrigau. Aeth yr arian i gyd tuag at gefnogi'r gwaith o adeiladu ysgol yn Accra. Agorodd yr ysgol yn 2018 gyda 36 o ddisgyblion. Erbyn heddiw mae dros 200 yn derbyn eu haddysg yn yr ysgol, ac mae'r nifer yn cynyddu bob blwyddyn.

Yn ystod y Cyfnod Clo llwyddodd Mati i barhau i anfon arian i gyflogi athrawon yr ysgol i ddal ati i addysgu'r plant. Yna, yn ddiweddar, adeiladwyd ffynnon yn Asantekroni tu allan i'r pentre. Mae'r ffynnon hon yn rhoi dŵr i'r ysgol a'r pentrefwyr.

Cafwyd trafodaeth fywiog ar ddiwedd y cyfarfod a chyfle i brynu'r crefftau a'r gemwaith lliwgar. Diolchwyd am gyfarfod oedd yn sbardun ac ysbrydoliaeth.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 3 Ionawr 2024 pryd y bydd Leah Owen-Griffiths, un o arweinwyr y rhaglen *Ffit Cymru* ar S4C, yn rhannu gwybodaeth werthfawr ar ddechrau blwyddyn newydd.

*Gwen Emyr*



# Colofn Natur



## *Mudo i'r Gogledd*

**Gethin Jenkins-Jones**

Dros y chwarter canrif diwethaf, rwyf yn bennaf wedi joio'r bywyd gwyllt hyfryd yma yng Nghaerdydd. Ac eithrio mynd i Loegr i brifysgol am dair blynedd cyn dechrau'r cyfnod clo, prin yr wyf wedi bod yn bell o'r ddinas am gyfnodau hir. Ond y mis yma, tra bod miliynau o'n hadar yn mudo i lochesau mwy mwyn y de, rydw i wedi mudo i'r cyfeiriad arall! Bellach rydw i wedi symud i Fangor i weithio fel Cydlynydd Datblygiad ac Ymgysylltu y BTO (*British Trust for Ornithology*). Er bod pennod newydd wedi dechrau, a minnau'n siŵr o golli Caerdydd, dwi hefyd yn methu ag aros i ddod i nabod natur Gogledd Cymru ac i ddarganfod llefydd naturiol newydd.



Pibydd y Môr

Dim ond dwywaith y gwnes i ymweld â Bangor cyn eleni – ac ar y ddau dro dim ond am ychydig ddiwrnodau. Ond bydd unrhyw un yn sylwi, ar ôl aros ym Mangor am dipyn, bod byd natur y ddinas (ac yn sicr ei thywydd) ychydig yn wahanol i Gaerdydd. Wrth gerdded trwy goedwig gyfagos, gwelais sawl math o fwswgl, cen a madarch newydd. Ac yn ôl pob sôn, mae rhai o'r coed cyfagos yn cynnal gwibedog brith yn ystod y tymor nythu; wrth iddyn nhw fudo, maen nhw i'w gweld yn y brifddinas. Mae fy ffrindiau sy'n byw ym Mangor hefyd wedi gweld gwiwerod coch yn achlysurol, ar ôl i ambell un dewr groesi un o'r ddwy bont sy'n cysylltu Ynys Môn â Gwynedd. Ym Môn mae poblogaeth gwiwerod coch yn parhau i oroesi. Ond y prif wahaniaeth rhwng natur Caerdydd a Bangor yw'r rhywogaethau sydd i'w gweld ar lan y môr.



Hwyaden Lygaid Aur

Lluniau: Michele Lambert

Yn ystod fy niwrnodau cyntaf ym Mangor, es i at y pier i weld pa adar oedd i'w gweld yno. Gan eistedd ar fainc a'm binocwlars yn fy nwylo, gwelais sawl rhywogaeth na welir mohonyn nhw'n aml yng Nghaerdydd. Yn rhedeg o amgylch y lle roedd nifer fawr o biod y môr – adar y lan sy'n hollol ddu a gwyn oni bai am eu pigau oren llachar. Dwi'n hoff iawn o'r adar hyn, oherwydd eu harddwch unigryw a hefyd oherwydd eu cri digri sy'n gallu codi'r ysbryd ar ôl diwrnod gwael. Er taw *oystercatcher* yw ei enw Saesneg, mae'r aderyn hwn yn hoff o fwyta cocos a mwydod yn ogystal. Yng Nghaerdydd, nid ydynt i'w gweld bron yn unman, yn enwedig ar ôl i'r morglawdd yn y Bae gael ei godi ar ddechrau'r ganrif. Ond wrth i chi sefyll ar ben pellaf y morglawdd, mae hi'n bosib i chi weld ychydig ar draeth Penarth, yn enwedig pan fydd y llanw allan yn ystod y gaeaf. Gwelais ddau ohonynt yno yr wythnos cyn i mi adael.

Aderyn arall a welais o'r pier y diwrnod hwnnw ym Mangor oedd hwyaden lygad aur oedd yn deifio'n brysur i lawr i waelod y môr i fwydo ar folysgiaid a chrancod – prif fwyd yr adar hyn. Roedd yn braf clywed gan adarwyr lleol bod ychydig ddwsinau ohonynt yn treulio'r gaeaf ar y Fenai – siŵr o fod o'r poblogaethau sy'n nythu yn yr Alban neu Wlad yr Iâ. Yng Nghaerdydd, yn achlysurol, fe welais yr aderyn hwn yng nghronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien. Y newyddion da yw – ar ôl blynyddoedd o fod ar gau i'r cyhoedd – bod y cronfeydd dŵr ar agor unwaith 'to. Felly dwi'n eich annog chi i ymweld â'r cronfeydd y gaeaf yma i ddarganfod a yw'r hwyaid hardd hyn yn parhau i fynd yno!

O fy mainc ger y Fenai, gwelais hefyd sawl gylfinir, pibyddion coesgoch a chwtiaid y traeth, ymysg adar eraill – pob un ohonynt efo ecoleg ddiddorol, a dwi'n edrych ymlaen yn fy swydd newydd at gyflwyno'r adar hyn i bobl newydd. A phan ddaw'r gwanwyn, bydd mwy fyth o drysorau natur yn dod i'r golwg – adar y môr a dolffiniaid sydd, ar hyn o bryd, yn gaeafu ym Môr Iwerydd, ac adar y tir sy'n bresennol yn Affrica a De Ewrop. Er y bydd Bangor yn sicr yn oerach ac yn dywyllach na Chaerdydd am y tro, bydd darganfod byd natur newydd yn sicr yn twymo'r galon.

**Dymuna pwyllgor *Y Dinesydd* longyfarch Gethin yn gynnes iawn ar ei swydd newydd gyda'r BTO ym Mangor. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.**

# Ysgol Bro Edern

Llongyfarchiadau i Manon Kiff o Ysgol Bro Edern ar gael ei dewis fel un o'r 22 Llysgennad Ysgol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Hi fydd yn cynrychioli'r ardal. Mae 22 Llysgennad ar draws Cymru gyfan.

Prif rôl y llysgenhadon fydd codi ymwybyddiaeth eu cyd-ddisgyblion o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg tu hwnt i'r ysgol, a'u hannog i barhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol.

Bydd y llysgenhadon yn dechrau ar eu gwaith gyda'r Coleg y mis yma.

Mae Manon Kiff yn un o ddisgynyddion y Cymry a symudodd i Batagonia yn y 19eg ganrif. Ar hyn o bryd, mae Manon yn astudio Lefel A Sbaeneg, Ffrangeg, Bioleg a Chemeg, ac yn edrych ymlaen at hyrwyddo manteision amlieithrwydd wrth fod yn llysgennad.

Meddai Manon:


Saesneg yw fy nhrydedd iaith ar ôl Sbaeneg a'r Gymraeg, ac felly rwy'n angerddol dros hanes amlddiwylliannol Cymru a sut mae'n ein clymu ni i gyd at ein gilydd. Rwy'n ddiolchgar iawn i fy rhieni fy mod i wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol, ac rwy'n bwriadu astudio Meddygaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol y flwyddyn nesaf er mwyn bod yn feddyg yn y dyfodol.

Mae'r efeilliaid, Gwilym a Joseph Morgan, o Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, ysgol sy'n dysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, wedi dysgu Cymraeg ac yn falch iawn i gynrychioli siaradwyr Cymraeg newydd fel llysgenhadon y Coleg Cymraeg.

Meddai Gwilym, sydd hefyd wedi ennill Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd eleni:

Fel llysgennad rwy'n edrych ymlaen at helpu pobl eraill sydd wedi dysgu'r iaith er mwyn dangos y cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt wrth astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddaf yn ymgeisio i astudio Cymraeg a Ffrangeg ym Mhrifysgol Caerdydd cyn bo hir, gan obeithio bod yn athro Cymraeg yn y dyfodol.

*Gwilym Morgan, Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf*




# Ysgol y Wern

**Cerddorfa Clwstwr Glantaf**

Bu dros 60 o'n disgyblion draw yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ar y 9fed o Dachwedd. Profiad arbennig yn wir oedd cymryd rhan mewn cerddorfa clwstwr enfawr. Perfformiwyd darnau gan Tchaikovsky, Grieg a Dvorak, ac roedd y perfformiad yn wych. Braf iawn oedd gweld cynifer o blant yn chwarae amrywiaeth o offerynnau ac yn mwynhau'r cyfle i ymarfer a pherfformio gyda'i gilydd. Diolch yn fawr i Ysgol Glantaf am drefnu profiad amhrisiadwy i'r plant.







*Lluniau o'r Ŵyl Cerdd Dant*

**Cerddorfa Genedlaethol Plant**

Llongyfarchiadau i Faith o 4 Cwcw ac Edryd o 5 Cudyll Coch am gael eu dewis i chwarae yn y Gerddorfa Genedlaethol Plant. Bydd Faith yn chwarae'r delyn, a bydd Edryd yn chwarae'r soddgrwth. Llongyfarchiadau – tipyn o gamp!

**Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd**

Bu nifer o'r plant yn cystadlu yn yr Ŵyl eleni. Llongyfarchiadau arbennig i Faith Manville-Parry am ddod yn drydydd gyda'i brawd yn yr *Ensemble* ac i'r Grŵp Llefaru i gyfeiliant a ddaeth yn ail.

**Cystadleuaeth Traws Gwlad yr Urdd**

Llongyfarchiadau enfawr i'r holl blant a fu'n cystadlu yng nhystadleuaeth Traws Gwlad yr Urdd ar ddydd Sadwrn 4ydd o Dachwedd. Rydym yn falch ohonoch i gyd. Dyma'r canlyniadau:

Tîm Bechgyn Bl.5/6 **1af** Zac Munn, Joseph Parker a Max Arundel

Tîm Merched Bl. 5/6 **2ail** Megan Dobson, Megan James, Sophie Markall

Tîm Bechgyn Bl. 3/4 **2ail** Harri Thomas, Osian Munn, Gwilym Williams

Tîm Merched Bl3/4 **2ail** Rosie Markall, Rhian Edwards, Esyllt Walker

**Diwrnod Plant Mewn Angen**

Llwyddwyd i godi £1,340. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth, ac yn arbennig i blant Bl 4,5 a 6 a fu'n brysur yn gwerthu cacennau.

# Ysgol y Berllan Deg

**Ysgol Noddfa**

Wedi llawer o waith caled llwyddodd yr ysgol i ennill tystysgrif Ysgol Noddfa. Daeth arweinydd y Cyngor, Huw Thomas, i gyflwyno tystysgrif i ni mewn gwasanaeth yn yr ysgol ar ddydd Mawrth Hydref 24ain. Hefyd mae Newyddion Ni (rhaglen newyddion i blant ar S4C) wedi bod yn yr ysgol i gyfweld aelodau'r cyngor ysgol eleni a'r llynedd am Ysgol Noddfa, ac rydym wedi cael ein gwahodd i berfformio y tu allan i'r Senedd mewn cynhadledd Ysgol Noddfa ar fore Mawrth Rhagfyr 12fed.




**Llangrannog**

Bu disgyblion blwyddyn 6 yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn Llangrannog am wythnos gyfan. Bu'r plant yn brysur yn sgio, gwibgartio, dringo, ymweld â'r traeth, nofio a chwarae bingo. Cawsant gyfle hefyd i ddysgu medrau marchogaeth a saethyddiaeth.




Ar y nos Iau olaf daeth holl ddisgyblion Clwstwr Bro Edeyrn o flynyddoedd 6 a 7 at ei gilydd ar gyfer Noson Lawen i gystadlu ac i gael hwyl. Cafwyd profiadau bythgofiadwy gan bawb.

**Gwersi Offerynnol**

Rydym yn falch iawn bod Blwyddyn 3 a 4 wedi cael cyfle y tymor hwn i gael gwersi offerynnol di-dâl gan athrawon o wasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro. Mae Blwyddyn 3 wedi dysgu sut i chwarae'r offeryn *pBuzz* a Blwyddyn 4 wedi cael gwersi sacsoffon plastig.

**Gŵyl Cerdd Dant**

Llongyfarchiadau i Inessa Radchenko am ddod yn ail ar yr unawd telyn yn yr Ŵyl Cerdd Dant ym mis Tachwedd.

# Ysgol Bro Morgannwg

'Anodd credu bod hanner tymor arall wedi hedfan heibio a blwyddyn arall yn dod i derfyn. Bu'n hanner tymor prysur, gyda llawer o fwrlwm ymysg ein disgyblion. Rhwng Diwrnod Plant mewn Angen, gweithgareddau allgyrsiol a thripiau di-ri, mae pawb yn barod am seibiant. Carwn gymryd y cyfle hwn i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr *Y Dinesydd*, a diolch am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn!'

*Mr Rhys Angell-Jones*

**Gwyddonwyr Gwych**

Mae'r adran Wyddoniaeth wedi bod yn brysur yn cystadlu gyda'n gwyddonwyr brwd. Cafwyd perfformiad hyderus iawn gan Aled Phillips, Gwen Norton, Annabel Maurer ac Idris Glyn-Jones yn y gystadleuaeth Cemeg a drefnwyd gan y Gymdeithas Frenhinol Cemeg (*Royal Society of Chemistry*) ym Mhrifysgol Caerdydd. Bu'r tîm yn brysur yn tyfu crisialau ac yn mireinio eu gwybodaeth cyn mynychu'r digwyddiad.




Yn ogystal â hyn bu tîm o fechgyn Bl11eg yn y gystadleuaeth 'Her Gwyddorau Bywyd' a drefnwyd gan Adran Feddygol Prifysgol Caerdydd. Bu'r tîm yn fuddugol gan gipio'r teitl Pencampwyr Ysgolion Cymraeg Cymru. Da iawn chi Aled Phillips, Conor Williams, Gethin Halsall a Wil Thomas. Tipyn o gamp!

**Rhedeg am y cyntaf!**

Braf yw cael cyhoeddi llwyddiant ysgubol ein disgyblion draw ym mhencampwriaeth traws gwlad Ysgolion Cymru yn y Drenewydd. Fe lwyddwyd i gipio gwobr gyntaf ym mhob categori. Dechreuodd y siwrnai traws gwlad yn ôl ym mis Medi yn y cystadlaethau rhyng-lysol. Y cam nesaf oedd cystadlu yn erbyn ysgolion Caerdydd a'r Fro, cyn mynd ymlaen i goncro Ysgolion Cymru yn y Drenewydd.

I ategu at y llwyddiant uchod, rhaid llongyfarch y canlynol am eu hanrhydeddau cenedlaethol. Dewiswyd Nia Lewis i garfan griced o dan 13eg Cymru. Llongyfarchiadau i Magi Hall sydd wedi ennill ei lle yng ngharfan o dan 15eg pêl-rwyd Cymru. Llongyfarchiadau hefyd i Soffia Easterby, Mia Hall a Gwen Norton sydd wedi cael eu dewis i garfan Hoci o dan ddeunaw Cymru.

**Plant mewn Angen**

Cafwyd diwrnod llawn hwyl er mwyn casglu arian at elusen Plant mewn Angen. Bu'r Chweched dosbarth yn brysur yn trefnu stondinau a gweithgareddau lu megis taflu sbwng gwlyb at rai o'n hathrawon. Gweithgaredd poblogaidd iawn fel y gallwch ddychmygu! Fe godwyd swm gwych o £1,838.29, gyda dosbarth 12 Mihangel yn codi'r swm mwyaf. Diolch i bawb am gyfrannu yn hael.

# Ambell Atgof

Malcolm Thomas

Mae gennyf gyfoeth o atgofion o'r cyfnod pan oeddwn yn Bennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf rhwng 1978 a 1995. Roeddwn yn awyddus i ymestyn gorwelion y disgyblion a rhoi profiadau gwahanol iddynt y tu allan i furiau'r dosbarth ac ysgogi eu talentau. Bu sioeau cerdd a chyngherddau Glantaf yn sicr yn gyfrwng i hynny. Roedd y sioeau cerdd blynyddol yn uchafbwynt, ac allweddol i'w llwyddiant oedd y cydweithio a rhannu arbenigedd rhwng nifer o adrannau'r ysgol. Roedd neuadd yr ysgol yn orlawn ar bedair noson, a'r ysgolion cynradd yn cael cyfle i fod yn y rihyrsal fel rhan o waith pontio'r ysgol uwchradd gyda nhw.



Fe wnaeth nifer o'r disgyblion serennu a dilyn gyrfa a roddai gyfle i'w talentau. Ac fe wnaeth nifer o rai eraill barhau a mwynhau, wedi gadael yr ysgol, i fod yn aelodau o gorau, cerddorfeydd, bandiau a theatrau.

*Twm* oedd y sioe gyntaf, hanes y lleidr pen-ffordd Twm Sion Cati. Cyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Euros Rhys Evans, a'r diweddar annwyl Bethan Roberts oedd yn cyfarwyddo. *Oliver* yn y Gymraeg oedd yr ail sioe: Catrin Beard yn cynhyrchu ac Alun Guy yn gyfrifol am y gerddoriaeth. Un o sêr y sioe oedd y soprano Eiry Thomas a aeth ymlaen i fod yn actores o fri ar y cyfryngau ac yn actores orau BAFTA Cymru ddwy waith. Roedd *Oliver* yn llwyddiant ysgubol.

Yr athrawes Julie Morse a ddarparai wisgoedd gwych i bob sioe gerdd. Roedd nifer fawr o'r disgyblion am gymryd rhan, a bu rhaid cynnal sawl clyweliad. Un a lwyddodd oedd llanc talentog a dirodres o'r enw Ioan Gruffudd. Pleser oedd ei weld yn ddiweddarach yn y ffilm *Titanic* a dilyn ei yrfa ddisglair.

Bu penodiad Delyth Medi i'r adran gerdd yn gaffaeliad arbennig i Ysgol Glantaf. Roedd ganddi ddawn i gynhyrchu, ac roedd Alun Guy yn ei elfen yn chwarae'r allweddellau ac yn arwain y band a'r gerddorfa.

Sioe arall gofiadwy oedd *Pum Diwrnod o Ryddid* a gynhyrchwyd yn wreiddiol gan Theatr Maldwyn. Feiolinydd dawnus â llais bariton oedd un o'r sêr, sef Gethin Jones sydd nawr i'w weld yn gyson ar y BBC. Un arall â rhan yn y sioe oedd Rhodri Llywelyn sydd erbyn hyn yn gyflwynydd gydag S4C.

Sioe arall sy'n fyw yn fy nghof yw *Elvis*, cynhyrchiad o ddrama gan Emyr Edwards, un o rieni'r ysgol. Yn y clyweliadau bu cystadlu brwd am ran y prif gymeriad, a bachgen diymhongar a gafodd y rhan, sef Matthew Rhys. Fe aeth o nerth i nerth, ac erbyn hyn fe enillodd glod yn Hollywood ac ennill tlysau'r *Emmy* a'r *Golden Globe*, ac mae'n dal yn ddiymhongar. Hefyd yn y sioe oedd trympedwr arbennig, Ceiri Torjussen, sydd erbyn hyn yn gyfansoddwr cerddoriaeth ffilmiau yn Hollywood, ac Osian Roberts sydd bellach yn sacsoffonydd enwog yn y byd *jazz*. Hefyd yn rhannu'r llwyfan yn *Elvis* oedd Mali Harries sy'n actores ar *Pobol y Cwm* a dramâu eraill.

Bu cyngherddau Glantaf hefyd yn sylfaen gyrfa i nifer o unawdwyr cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys Jeremy Williams, Paul Carey Jones, Dyfed Evans a Tony Lloyd, a hyfryd yw dilyn eu gyrfaoedd. Mae gweld Ffion Jenkins Hague a Branwen Gwyn ar y cyfryngau yn f'atgoffa hefyd o'u cyfraniad gwirfoddol hwythau i adran gerdd Glantaf.

Roedd yr adran gerdd yn hyrwyddo pob math o gerddoriaeth, gan gynnwys sefydlu a chefnogi grwpiau pop. Cafwyd allweddellau electronig, gitâr a chit drymiau yn anrhegion, a chynhaliwyd Noson Roc lwyddiannus.

Roedd nifer o fandiau yn yr ysgol; *U Thant a'r Cenhedloedd Unedig* oedd un o'r grwpiau Cymraeg cyntaf yn y brifddinas, gydag Owen Powell a Stephen Williams yn aelodau o'r grŵp. Yn y man, aeth Owen yn aelod o'r band Catatonia. Bu *Hanner Pei* yn fand llwyddiannus ar Radio Cymru gyda'r ddau frawd, Daniel a Matthew Glyn, yn aelodau. *Crumblowers* ac *Edrych ar Julia* oedd dau arall o fandiau roc yr ysgol. Ar ôl eu dyddiau ysgol, roedd y disgyblion Huw Bumford a Guto Price yn aelodau o fand enwog y *Super Furry Animals*, a disgybl arall talentog oedd Huw Stephens sy'n DJ ar Radio Cymru a Radio 1, ac fel Gareth Bonello yn gefnogol iawn i gerddoriaeth gyfoes Gymreig.

Dathlwyd degawd yr ysgol gyda phrosiect uchelgeisiol iawn, sef llwyfannu yn y Gymraeg *Y Meseia* gan Handel yn Neuadd Dewi Sant. Cymerwyd rhan gan Gôr yr Ysgol Isaf a Chôr yr Ysgol Uchaf, Côr Athrawon a Rhieni a Chorau Ffilharmonig Alun Guy. Cafodd pedwar o unawdwyr eu gwahodd i gymryd rhan, gan gynnwys Jeremy Huw Williams. Yr Organydd oedd Jeffrey Howard, a'r arweinydd – yn ei siwt gynffon hir ffurfiol – oedd Alun Guy, pennaeth yr adran gerdd. Roedd Neuadd Dewi Sant yn orlawn, a'r noson yn un fythgofiadwy i bawb oedd yn cefnogi'r ysgol. Nid anghofiaf wefr y ddwy gytgan olaf, sef 'Teilwng yw'r Oen' a'r 'Amen' fendigedig.

Mae gennyf gyfoeth o atgofion hapus eraill, ond rhaid gorffen am y tro.

---


## ANGEN CARAFÁN I'W LLOGI

Yn ystod Eisteddfod 2024 Rhondda Cynon Taf.

I'w gosod ym Mharc Carafannau Gerddi Soffia.

Cysyllter â Meirion 077900 15418 neu Nesta: 07980 256248.

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

***Ganol mis Tachwedd bu sylw cefnogwyr pêl-droed Cymru ar obeithion y tîm cenedlaethol i gyrraedd Pencampwriaeth yr* Euros *yn yr Almaen yn 2024. Cafwyd gemau cyfartal yn erbyn Armenia oddi cartref ac yn erbyn Twrci adref. Er bod nifer yn siomedig na lwyddwyd i gyrraedd yr Almaen eto, cododd calonnau'r cefnogwyr wrth gael gemau ffafriol yn y gemau ail-gyfle ym mis Mawrth – gêm adref yn erbyn Y Ffindir, ac yna, os ennill adref, yn erbyn Gwlad Pwyl neu Estonia. Bydd yn rhaid aros rhai misoedd am y gemau hynny, ond mae gemau ar lawr gwlad yn parhau. Braf y mis hwn yw adrodd hanes hanner cyntaf calonogol tîm Clwb Cymric i'r tymor gan Aled Biston.***

Eleni mae Clwb Cymric yn chwarae ym Mhencampwriaeth Cynghrair De Cymru, y bumed haen yng Nghymru. Penderfynwyd ailstrwythuro'r cynghreiriau eleni, ac mae'r clwb sy'n chwarae yn arena *Ocean Park* yn un o 11 tîm (12 cyn i Porth dynnu allan) yn y gynghrair. Hyd yma mae'r clwb yn drydydd wedi i saith gêm gael eu chwarae, pum buddugoliaeth a cholli dwy. Dechreuodd y tymor gyda dwy golled, un yng Nghwpan Cymdeithas Bêl-droed Cymru a'r gêm agoriadol yn y gynghrair. Yn dilyn hynny fe wnaeth Cymric ennill eu tair gêm nesaf yn y gynghrair yn erbyn AFC Wattstown, Garw a *Merthyr Saints*.

Yn dilyn dechrau da yn y gynghrair, roedd sylw Cymric wedi troi i gemau cwpan. Roedd angen ciciau o'r smotyn i guro Tonyrefail yng Nghwpan W John Owen ac yn erbyn *Merthyr Saints* yng Nghwpan Amatur Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Parhau wnaeth eu rhediad heb golli wrth iddynt ddychwelyd i'r gynghrair gyda dwy fuddugoliaeth yn erbyn Aber-fan oddi cartref ac yn erbyn Sili ar gae *Ocean Park*.

Ar ddiwedd mis Hydref fe wnaeth Cymric golli i AFC Wattstown yng Nghwpan W John Owen, ond roedd dwy fuddugoliaeth ysgubol o 4-1 yn erbyn *Vale United* yng Nghwpan Amatur Cymdeithas Bêl-droed Cymru, a 6-0 yn erbyn *Cascade* yng Nghwpan Hugh James, gan sicrhau eu lle yn y rowndiau nesaf.

Dan reolaeth Rhodri Williams, mae'r clwb yn gobeithio ennill dyrchafiad i'r Uwch Gynghrair yng Nghyngrair De Cymru y tymor hwn. Maen nhw eisoes wedi dangos eu bod yn gallu cystadlu gyda thimoedd yn y cynghreiriau uwch wedi iddynt guro Ton Pentre yn y bedwaredd haen a Thredegar yn y drydedd haen o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Gyda bron i hanner y tymor wedi ei chwarae, a saib y Nadolig ar y gorwel, bydd Cymric yn gobeithio gallu gwthio ymlaen i'r ddau safle uwch yn y flwyddyn newydd. Byddai hynny'n sicrhau dyrchafiad i'r bedwaredd haen ynghyd â cheisio parhau i'r rowndiau nesaf yn y cystadlaethau cwpan.

*Aled Biston*

**O.N.** Mae'r *Dinesydd* yn falch iawn o noddi Clwb Cymric eleni. Rhoddir y faner, sy'n cael ei harddangos yn y llun, ar ochr y cae ym mhob gêm gartref y tymor hwn.




## Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Trist iawn yw colli Marian Lake, un o ffyddloniaid yr Aelwyd a fu'n ysgrifennydd am nifer o flynyddoedd. Cydymdeimlwn â'i chwaer Audrey yn ei cholled.

Daeth Ruth Davies atom i'n helpu i baratoi at y Nadolig. Cawsom amrywiaeth o syniadau, a gwnaeth bopeth i edrych yn rhwydd. Dywedodd fel yr oedd yn cadw bocsys siocled gwag a'u defnyddio wedyn i'w llenwi gyda melysion wedi eu gwneud ganddi, a'u rhoi yn anrhegion Nadolig. Cawsom brofi amrywiaeth o'r rhain; roeddent yn flasus iawn. Dangoswyd sut i ddefnyddio hen gardiau Nadolig i wneud cardiau i'w rhoi ar anrhegion ac i greu addurn Nadolig. Syniad arbennig oedd defnyddio darn o ddefnydd neu sgarff liwgar i lapio anrhegion, neu ddefnyddio papur brown a rhuban coch. Crëwyd addurn Nadolig i'w roi yn y cyntedd gan ddefnyddio celyn, iorwg, uchelwydd, ywen, rhosmari, blodyn gwyn a channwyll.

Diolchwyd i Ruth Davies am fore diddorol iawn.

Ar 22 Tachwedd, cawsom bryd o fwyd yn y *Butchers*, Rhiwbeina.

Gwasanaeth Nadolig a gynhelir yng Nghapel Bethel am 11 y bore, ar Ragfyr 6ed, gydag anerchiad gan y Parchg Dylan Rhys, Porthcawl.

Mae croeso i unrhyw un i ymuno gyda ni. Bydd ein cyfarfod cyntaf yn 2024 ar 10 Ionawr yn fore Cymdeithasol. Yna, ar 20 Ionawr, cawn sgwrs gan y Parchg Alun Tudur.

# Bwytai Merch y Ddinas



## Nadolig yn y Ddinas

**Lowri Haf Cooke**

Cyfarchion tymhorol, a Rhagfyr rhagorol i chwi i gyd, holl Ddinasyddion y byd! Dwi'n llawn hwyl yr ŵyl ers canol mis Tachwedd – er 'mod i'n dal heb addurno 'nghartref. Gyda lwc, bydd y goeden a'r goleuadau'n llachar erbyn i'r rhifyn hwn fynd i'r wasg. Bach o beintio a phapuro sy'n gyfrifol am yr oedi, felly trois at flasau'r ŵyl i lenwi'r bwlch dros dro. Mae sawru tanjerîn cynta'r tymor yn foment fawr bob tro, wrth i'r persawr lenwi'r ffroenau cyn datgelu lluniau'r cof. Yna mae'r frechdan Nadoligaidd yn cynnig tamaid i aros pryd. Ond un o ba siop sy'n eich plesio chi? *Marks & Sparks*? *Aldi? Tesco*? I mi, brechdan *Pret a Manger* - sy'n cyfrannu canran o'r pris i elusen digartrefedd – sy'n taro'r nod bob tro.

Mae'r mins pei hefyd yn flas sy'n plesio'n fawr – gyda rhai blychau ar werth yn yr archfarchnadoedd ers mis Awst! Dwi ddim mor wallgo a hynny, rhaid dweud ... ond pa ots, mewn difri calon, os yw'n codi'r galon dros baned o de? Bachais ddyrnaid o *Quality Streets* cyn agor drws cynta'r calendr Adfent, a chael fy siomi braidd, rhaid cyfaddef, am nad yw'r papur bellach yn sgleiniog! Oes 'na gyfnod arall o'r flwyddyn tybed sy'n cynnig codi cymaint o ddisgwyliadau trwy flasau bwyd? A beth am gas flasau hefyd? Roedd yn gas gen i ysgewyll, caws glas a sieri am flynyddoedd; erbyn hyn maen nhw'n rhan anhepgor o'r ŵyl. Ond alla' i yn bersonol ddim stumogi blas datys *Medjool* a chacen Nadolig! Tybed beth yw eich hoff a chas flasau Nadolig chi? Ystyriwch yn ofalus cyn gorffen darllen y golofn hon!



Mae'r holl beth mor bersonol, a chwaeth pawb yn wahanol; yn bendant, nid yw pawb yn gwirioni'r un fath. Ond mae'n gyfnod o'r flwyddyn sy'n bleser pur i fynd ar grwydr o amgylch delis a bwytai Caerdydd. Mae Arcêd y Castell yn llawn cynigion ac arogleuon, o sawr sinamon a chacennau cri Ffablas. Sefais yn syfrdan o flaen ffenest becws *Pettigrew* gerllaw – ac roedd gan y mins peis olwg 'ffein y jiawl'. Ces i flasu sawl caws yn yr iaith Gymraeg yn siop Tŷ Caws – cofiwch ddechre pob sgwrs â'r perchennog, Owen Davies, yn iaith y nefoedd! Ac mae'r dewis yn siop a deli Awstriaidd *Wally's* – yn Arcêd y Castell a'r Arcêd Frenhinol – yn chwedlonol, fel mynd ar wibdaith gyfandirol i groto Siôn Corn! Yn *Green and Jenks* ym Mhen-y-lan, a delis *Al Ponte* a *Bant A La Cart* Pontcanna, ceir dewis gwych o ddanteithion Cymreig, a pharseli *panettone* Eidalaidd hardd. Mae *Snails* Rhiwbeina, *CannaDeli*, a Tŷ Melin y Rhath yn llefydd hyfryd am baned a chacen – ac mae becws *Alex Gooch* ger Gabalfa yn gweini bara a chawl tymhorol godidog. A beth am berlysiau? Blasais siocled aur thus a myrr yn *Rococo*, Llundain, unwaith – ond cystal bob tamed yw bynsen gardamom Sgandinafaidd becws *Ground*, Penarth, y Bont-faen a Phontcanna.

Maddeuwch i mi am wirioni. Ond mae'r holl flasau yn tynnu dŵr i'r dannedd. Yn wir, ces 'y ngwledd Nadolig gyntaf yng ngwesty'r *Parkgate* cyn diwedd mis Tachwedd – profiad dymunol iawn yng nghanol y ddinas. Os am drefnu parti munud olaf, gallaf argymell bwydlenni'r *Heathcock*, Llandaf a'r *Hare & Hounds* yn Aberthin, sydd ar agor tan Noswyl Nadolig. Ac os aiff y popty ar streic ar y diwrnod mawr ei hun, mae gen i gynigion i achub y dydd! Mae bwyty *Graze* yr *Hilton* a gwesty *voco* Dewi Sant i lawr yn y Bae ar agor, ynghyd â thafarndai bwyd fel y *Pear Tree*, y Rhath; y *Conway* ym Mhontcanna; a'r *Old Swan* yn Llanilltud Fawr.

Yn y cyfamser, chwiliwch am gynigion yn eich maestref chi; pwy a ŵyr, efallai y daw'r wybodaeth yn handi! Pe bai pethau'n mynd i'r pen, sicrhewch fod gennych gyflenwad o'ch hoff flasau Dolig mewn cwpwrdd. Dim ond bod gen i focs o *After Eight* a jar o bicls o fewn cyrraedd, bydda' i'n hapus, beth bynnag ddigwyddiff! Ond ble bynnag y byddwch, rwy'n dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd, a blynyddoedd o atgofion melys. xxx

***Gwledd* (Y Lolfa) a *Bwytai Cymru* (Gomer@Lolfa) gan Lowri Haf Cooke, ar werth yn eich siop lyfrau leol**

# Y DIGWYDDIADUR

## Rhagfyr

**Sadwrn, 9 Rhagfyr**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i drafod carol blygain yng nghwmni'r Athro E. Wyn James, yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: gwybodaeth@cwmpawd.org.

**Sul, 10 Rhagfyr**
'Carolau ar y Comin.' Oedfa garolau awyr-agored (tywydd yn caniatáu!) ar Waun Treoda (Comin yr Eglwys Newydd) am 5.00pm. Wedi ei threfnu gan Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Manylion pellach: gwybodaeth@cwmpawd.org. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 11 Rhagfyr – Sadwrn, 6 Ionawr**
Theatr Sherman yn cyflwyno 'Hansel a Gretel' ar gyfer plant rhwng 3 a 6 oed a'u teuluoedd. Manylion am y perfformiadau: https://www.shermantheatre.co.uk/event/hansel-a-gretel/?lang=cy neu ffoniwch 029-2064-6900.

**Llun, 11 Rhagfyr – Sadwrn, 6 Ionawr**
Theatr Sherman a Theatr Iolo yn cyflwyno 'Peter Pan' ar gyfer plant 7+ oed a'u teuluoedd. Manylion am y perfformiadau: https://www.shermantheatre.co.uk/event/peter-pan/?lang=cy
neu ffoniwch 029-2064-6900.

**Mawrth, 12 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Noson gerddorol yng nghwmni Joy Aman ac Iona Jones, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mawrth, 12 Rhagfyr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson Nadoligaidd yng nghwmni Siân Meinir, yn festri'r capel (CF24 4ER) am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 14 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. 'Nodau'r Nadolig.' Cyflwyniad gan Sioned Webb i gerddoriaeth y Nadolig Cymreig, ynghyd â chyfraniadau gan Arfon Gwilym. Trwy gyfrwng *Zoom* am 7.30pm. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 15 Rhagfyr**
Mewn Cymeriad yn cyflwyno 'Nadolig Ddoe a Heddiw' gan Sion Emyr a Janet Aethwy yn Ysgol Bro Edern am 5.30pm. Manylion pellach: Mari@mentercaerdydd.cymru.

**Llun, 18 Rhagfyr**
Cyngerdd Nadolig Mewn Tiwn yng nghwmni Lowri Evans, yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina, am 11.30am. Yn rhad ac am ddim. Manylion pellach: rachel@mentercaerdydd.cymru.

**Llun, 18 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.
Gwasanaeth o garolau plygain, gyda charolwyr lleol, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 7.00pm (ac nid am 7.30pm, fel sy'n arferol).
Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 19 Rhagfyr**
Cymanfa Garolau yng nghwmni Côr Meibion Taf, yn nhafarn y 'Victoria Park', Treganna, am 7.15pm.

**Mercher, 20 Rhagfyr**
'Naws y Nadolig' gyda Merched Plastaf yn Eglwys St John's, Treganna, am 6.30pm. Nid oes angen prynu tocynnau ymlaen llaw.

## Ionawr

**Mercher, 3 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Sgwrs gan Leah Owen-Griffiths am 'Ffit Cymru', yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).

**Sadwrn, 6 Ionawr**
Taith adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd. Yn cwrdd y tu allan i Ganolfan y Wardeiniaid, Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd, CF14 7JH, am 10.30am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com.

**Sul, 7 Ionawr**
Oedfa Blygain yng nghapel y Tabernacl, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DD, am 5.00pm. Wedi ei threfnu gan Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Manylion pellach: gwybodaeth@cwmpawd.org. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 9 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Haydn Denman ar y testun 'Camera ledled y byd', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Gwener, 12 Ionawr**
Noson yng nghwmni Cleif Harpwood (o 'Edward H. Dafis') a Geraint Cynan yng Nghanolfan Gartholwg am 7.30pm. Tocynnau: £12. Noson wedi ei threfnu gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Manylion pellach a thocynnau: 01443-570075.

**Sadwrn, 13 Ionawr**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i drafod cerdd gan Gwenallt yng nghwmni Dewi George, yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: gwybodaeth@cwmpawd.org.

**Sul, 14 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu'r Plygain yn Eglwys Sant Teilo, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, am 2.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 15 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Dr Gethin Matthews ar y testun 'Cymry'n ymfudo i Ganada', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 19 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Darlith i gofio'r Athro Gwynedd O. Pierce gan Dr Dylan Foster Evans ar y testun 'Caerdydd, y wasg a diogelu enwau lleoedd Cymru'. Trwy gyfrwng *Zoom* am 7.15pm. Croeso cynnes i bawb. I ymaelodi (£10 am y flwyddyn) ac i dderbyn y ddolen *Zoom*, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Gwener, 19 Ionawr**
Gig Clwb Canna gyda Bwncath, Dadleoli a Taran yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am 7.30pm.

**Mawrth, 23 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Bydd Bethan a Hefin Jones yn trafod eu profiadau yn Oberammergau 2022 yn festri'r capel (CF24 4ER) am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 26 Ionawr**
Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd, yn dechrau am 4.00pm yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Tâl mynediad: £5.00 i oedolion; plant am ddim. Ceir yr holl fanylion ar y wefan hon: https://www.eisteddfodcaerdydd.cymru/index.php?page=home

**Gwener, 26 Ionawr**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan Emlyn Davies ar y testun 'Y Ddau Gochyn!', yn y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf, am 8.00pm. Fe'i trefnir gan Ferched y Wawr, Cangen y Garth. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cylch Cadwgan, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Sadwrn, 27 Ionawr**
Gig gan y grŵp gwerin 'Mynediad am Ddim' yng Nghanolfan Celfyddydau Memo, Y Barri, am 7.30pm. Manylion pellach: https://memoartscentre.co.uk/cy/Shows/mynediad-am-ddim/ neu ffoniwch 01446-738622.

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James Manylion tud.2**

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

## Yr Athro E. Wyn James



**Anna Waring, Iolo Morganwg, a Chrynwyr Castell-nedd a Chernyw (Rhan 1)**

Prin yw'r emynyddesau Cymraeg o'r 19eg ganrif y mae eu gwaith wedi cyrraedd y llyfrau emynau. Os ydym yn eithrio Ann Griffiths, gan iddi farw yn 1805, gwaith pum emynyddes yn unig o'r ganrif honno a gynhwyswyd yn y casgliad cydenwadol *Caneuon Ffydd* (2001), a dim ond un emyn yr un o'u gwaith sydd yn y casgliad hwnnw, ac eithrio Mary Owen (1796–1875) o ardal Castell-nedd, y ceir dau emyn ganddi yn *Caneuon Ffydd*, sef 'Dyma gariad, pwy a'i traetha?' (199) a 'Caed modd i faddau beiau' (507).

Mae'r sefyllfa'n bur wahanol yn achos emynyddesau Saesneg o'r 19eg ganrif, fel y dengys y ffaith fod cyfieithiadau Cymraeg o waith tua dwsin ohonynt wedi eu cynnwys yn *Caneuon Ffydd*. Un o'r amlycaf yw Frances Ridley Havergal (1836–79), ac mae ganddi gysylltiad â Chymru am iddi fyw am wyth mis olaf ei bywyd mewn tŷ ar y bryn uwchlaw traeth Caswel ym Mhenrhyn Gŵyr. Ymwelsai â Chymru sawl tro cyn hynny a dysgu rhywfaint o Gymraeg, a chyfieithwyd o leiaf 16 o'i hemynau i'r Gymraeg, gan gynnwys 'Cymer, Arglwydd, f'einioes i' (767) a 'Gwawr wedi hirnos' (789) yn *Caneuon Ffydd*.

Mae eleni yn 200 mlwyddiant geni emynyddes Saesneg arall a chanddi gysylltiad â Chymru, sef Anna Letitia Waring (1823–1910). Ond yn ei hachos hi, nid yn unig iddi fyw yng Nghymru, ond fe gafodd ei geni yma, a hynny ym Mhlasyfelin, ar ochr orllewinol yr hen bont (sy'n bont droed erbyn hyn) dros afon Nedd yng Nghastell-nedd – tŷ sydd bellach o dan yr A465.

Hi oedd y trydydd o saith plentyn Elijah Waring (1787–1857) a'i wraig, Deborah Price (1785–1867). Un peth a nodweddai Gastell-nedd a'r cyffiniau yn y cyfnod dan sylw oedd bod yno gymuned ddylanwadol o Grynwyr. Roedd sawl un ohonynt yn perthyn i'w gilydd, a nifer wedi dod yno o Gernyw. A chael ei geni i deulu o Grynwyr oedd hanes Anna, er iddi ymuno â'r Eglwys Anglicanaidd yn nes ymlaen, yn 1842, pan oedd yn 19 oed.

Wrth lunio barddoniaeth, roedd Anna yn dilyn yn ôl traed ei thad, Elijah, a'i frawd yntau, Samuel Miller Waring (1792–1827). Yn 1850, a hithau wedi symud erbyn hynny i Clifton, ger Bryste, cyhoeddodd Anna gasgliad o'i cherddi a'i hemynau dan y teitl *Hymns and Meditations*. Arwydd o boblogrwydd y casgliad hwnnw yw iddo fynd i 8 argraffiad erbyn 1860 ac i 11 argraffiad erbyn 1870, heb sôn am nifer o argraffiadau Americanaidd. Ac fe dyfodd y casgliad o argraffiad i argraffiad – 20 eitem oedd yn yr argraffiad cyntaf, ond erbyn y degfed argraffiad yn 1863, roedd eu nifer wedi cynyddu i 38.

Ei hemyn mwyaf poblogaidd yn ystod ei hoes hi ei hun oedd un yn dechrau '*Father, I know that all my life is portioned out for me*', emyn a ganwyd yn ei hangladd. Ond yr emyn o'i gwaith sydd wedi sefyll prawf amser yw '*In heavenly love abiding*'. Arwydd o hynny yw'r ffaith iddo gael ei gynnwys yn yr atodiad o emynau Saesneg yn *Caneuon Ffydd* (2001).

Lluniodd Dr Hywel Morris Griffiths (1949–2005) efelychiad Cymraeg o'r emyn hwnnw ym mis Mehefin 1987 ar gyfer angladd Mrs Marion N. Jenkins, Tonypandy, a oedd yn berthynas i'w wraig, Siân. Roedd Mrs Jenkins yn fam i Dr Kathryn Jenkins, yr awdurdod mawr ar emynyddiaeth Gymraeg a fu farw'n 47 mlwydd oed yn 2009. Adeg ei marw, roedd Kathryn yn Glerc Pwyllgor yn y Cynulliad Cenedlaethol (fel yr oedd bryd hynny).

Brodor o Abertawe oedd Hywel Griffiths, ond roedd ei gysylltiad â Chaerdydd yn un agos iawn. Symudodd i fyw i'r ddinas ym mis Medi 1974 pan benodwyd ef yn athro Cemeg yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, ac er iddo symud i Gaerffili wedi iddo briodi yn 1989, fe gadwodd gysylltiad agos â Chaerdydd. Bu'n flaenor yn Eglwys y Crwys o 1984 hyd ei farw, a gweithiai yn swyddfa ganolog Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Heol Richmond rhwng 1993 a 2001, wedi iddo roi'r gorau i'w swydd yn bennaeth gwyddoniaeth Ysgol Gyfun Cwm Rhymni oherwydd afiechyd.

Yn ogystal â bod yn wyddonydd disglair, roedd Hywel Griffiths yn gerddor ac yn llenor medrus, ac yn emynydd cynhyrchiol. Cyhoeddwyd ei efelychiad o '*In heavenly love abiding*' yn wreiddiol yn y cylchgrawn *Cristion* yn 1988; ond dyma (gyda chaniatâd caredig Mrs Siân Griffiths) y fersiwn diwygiedig ohono sydd yn *Cynhaeaf Dy Groes*, y casgliad o'i emynau a gyhoeddwyd yn 2007. Ac fel yn y Saesneg gwreiddiol, mae'r adleisiau o Salm 23 yn amlwg iawn yn ei efelychiad a'r 'gobaith sicr' sy'n rhedeg trwyddo yn drawiadol:

Ni welaf anghysondeb
  yng nghariad nefol Duw:
mae ef yn ddigyfnewid,
  a'm gobaith, sicir yw;
er dod iselder ysbryd,
  er rhuo'r storom gref,
mae f'Arglwydd yn fy ymyl,
  a'm hyder ynddo ef.

Lle bynnag caf fy arwain
  ni fynnwn fwy pe cawn:
fy Arglwydd a'm bugeilia,
  a'm ffiol sydd yn llawn;
ni huna fy Ngwaredwr,
  ni phyla'i lygad ef;
yn gyson yn ei gwmni
  fe rodiaf tua'r nef.

Fan draw mae mannau gwynion
  na welais eto'n glir;
fe ffy'r cymylau duon,
  caf weld yr hyfryd dir.
Mae 'ngobaith yn ddifesur
  a'm ffordd i'r nef yn rhydd:
mae 'nhrysor gyda'm Ceidwad –
  cydymaith imi fydd.

(*I'w barhau*)

## Y DIGWYDDIADUR

### Chwefror

**Gwener, 2 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Dr Martin Wright ar y testun 'Sosialwyr Cymraeg Cynnar Caerdydd'. Trwy gyfrwng *Zoom* am 7.30pm. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10; y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £3 (ond yn rhad ac am ddim i aelodau). I dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i dalu'r tâl aelodaeth neu'r pris mynediad i gyfarfod unigol, a thrwy hynny dderbyn y ddolen *Zoom*, anfonwch at cymrodorioncaerdydd@gmail.com. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 3 Chwefror**
Taith adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd. Yn cwrdd y tu allan i Ganolfan y Wardeiniaid, Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd, CF14 7JH, am 10.30am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com.

**Llun, 5 Chwefror**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £28 yr un. Siaradwr gwadd: Huw Thomas (Arweinydd Cyngor Caerdydd). Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Paul Morgan, ar 07761-696286 neu cylch.cinio@gmail.com.

**Mawrth, 6 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Sgwrs gan Catrin Stevens am 'Apêl Merched Cymru dros Heddwch, 1923–24', yn festri'r capel (CF24 4ER) am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 7 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Noson yng nghwmni Ifan a Margaret Roberts, yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).

**Iau, 8 Chwefror**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Yng Nghlwb Golff Llanisien, CF14 9UD, am 7.30pm. Siaradwraig: Heledd Fychan, AS. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Cadeirydd, Elin Tudur (etudur@aol.com; 07768-095678).

**Sadwrn, 10 Chwefror**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i sgwrsio ac ymarfer eich Cymraeg yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: gwybodaeth@cwmpawd.org.

**Mawrth, 13 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Dr Marion Loeffler ar y testun 'Y Ferch o'r Dwyrain: O Berlin i Geredigion', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Gwener, 16 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Fi a Ti' – noson yng nghwmni Meleri Wyn James, enillydd Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023. Trwy gyfrwng *Zoom* am 7.15pm. Croeso cynnes i bawb. I ymaelodi (£10 am y flwyddyn) ac i dderbyn y ddolen *Zoom*, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at**
**Yr Athro E. Wyn James,**
**JamesEW@caerdydd.ac.uk).**
**16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ**
**(029-2062-8754;**






# Pobol y Rhigwm

Ro'n i wedi gobeithio cael casgliad swmpus o limrigau Nadoligaidd, er mwyn ysgafnhau rywfaint ar naws ddigon trallodus y dwthwn hwn. Gwaetha'r modd, tri chynnig a ddaeth i law, ond mae'n deg dweud hefyd bod ffraethineb y tri wedi cymell gwên ar wyneb y beirniad, ac wedi plesio. Yn y lle cynta, rhaid canmol y tri ymgeisydd am saernïo eu priod limrigau'n daclus, gan roi sylw i nodweddion mydryddol fel sillafau a rhythm. Does dim rhaid i fi achwyn am fynegiant rhy herciog y tro hwn! Mae yma limrigwyr crefftus (er, yn ddiddorol hefyd, does yr un ohonyn nhw wedi cynnwys odl fewnol yn y llinell glo – mae odl fewnol yn tueddu i ennill pwyntie ychwanegol wrth y beirniad!). Da gweld hefyd bod themâu'r tri yn gwbwl wahanol i'w gilydd; mae hynny i'w groesawu mewn cystadleuaeth wan o ran nifer. Dyma sut mae'r podiwm yn edrych, felly:

Mae anrheg i fi dan y goeden,
Yn lliwgar, yn bert ac yn gymen.
Eto llwyd fydd fy myd
Ac wy'n becso o hyd.
Anghofiais i fodrwy i'r wejen.

***Enaid Clwyfus***

Limrig clasurol sy gan *Enaid Clwyfus*, wedi'i weithio'n llwyddiannus. Mae ôl meddwl yn y cyferbynnu rhwng yr anrheg 'lliwgar' yn llinell dau, a'r ffaith bod y limrigwr, gyda hyn, yn 'llwyd ei fyd'! Efallai nad yw'r syniad yn arbennig o wreiddiol, ond wedyn fe hoffais y limrig hwn, a gall *Enaid Clwyfus* fod yn falch ohono.

'Mae anrheg i fi dan y goeden'
Medd Lleucu, llygoden Tan Domen.
'Af ati pan fynnaf
A'i hagor yn araf
Nôl ffrind fach. A'i henw yw Mursen.'

***Rala***

Nawrte, ry'n ni'n mynd i Wlad y Rwla gyda limrig *Rala* – mae'n rhaid bod yr ymgeisydd yn gwybod cymaint o obsesiwn oedd llyfrau arbennig Angharad Tomos, *Cyfres Rwdlan*, gan y beirniad pan oedd e'n grwt! Pwyntie ychwanegol yn syth! Mae'n limrig awgrymog, campus, gyda'r mynegiant rhwydd yn cyfleu senario ddigri mewn ffordd gynnil. Cyfrwys yw Mursen y gath!

Mae Rwdolff 'di bwyta panasen,
a'r pwdin a hanner o'r gacen,
a'r twrci a chastan,
a nawr ar Ŵyl Steffan
mae anrheg i fi dan y goeden.

***Siôn Corn***

Ar y darlleniad cynta doedd dim amheuaeth, mewn gwirionedd, mai *Siôn Corn* fydde'n mynd â hi, achos fe chwerthais o'i ddarllen! Dyma berl o limrig, yn nhraddodiad gorau'r mesur. Mae rhestru'r holl fwyd i Rwdolff fwyta yn dechneg glyfar sy'n cyfrannu at adeiladwaith y limrig – bron y gallwn ni weld glythineb y carw ar waith! Mae'r dewis penodol o fwyd, hefyd, yn ddigri! Ai dim ond fi sy'n meddwl bod yna rywbeth sy mor ddoniol am y gair 'panasen'?! Beth bynnag, mae'n cloi'n gywrain – ry'n ni i gyd yn gwybod beth fyddai sgil-effaith trachwant Rwdolff, a does dim angen dweud unrhyw beth mwy na 'mae anrheg i fi dan y goeden'! Dyna wneud defnydd penigamp o'r llinell osodedig!

Ar ddiwedd blwyddyn arall, dyma ddiolch i'r holl rigymwyr fu'n cystadlu o fis i fis. Cafwyd casgliad amrywiol o fesurau a themâu eleni eto, cynigion sy, ar eu gorau ac mewn difrif, wedi codi'r galon yn ogystal â chydio ynddi. Gobeithio mai prysurdeb tymhorol wnaeth beri i gymaint o limrigwyr gadw'n dawel y tro hwn, ac y cawn doreth o gyfraniadau yn y flwyddyn newydd i'n traddodiad barddol. Mae'n draddodiad, ym marn y beirniad, sy'n werth ei gynnal.

*Aron Pritchard*

**Enillydd Rhagfyr**
**Alan Iwi**

**Cystadleuaeth mis Chwefror**

**Pennill**, heb fod dros bedair llinell:
**Eira mân, eira mawr**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Ionawr at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*


**Methu canfod Te *Glengettie* yng Nghaerdydd ?**




**Dewch i Siop y Pentre, Dinas Powys, gyferbyn â thafarn Y *Star*.**

# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2024




**Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd, 26 Ionawr 2024**
Erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn o'r *Dinesydd*, mae'n debygol y bydd y dyddiad cau (sef 8 Rhagfyr) ar gyfer cystadlaethau gwaith cartref wedi mynd heibio. Ond mae digon o amser ar ôl i chi gofrestru i gystadlu yn yr holl gystadlaethau llwyfan. Mae'r cystadlaethau'n cynnwys unawdau, llefaru, cerdd dant, canu gwerin, dawnsio, cystadlaethau offerynnol, a chystadlaethau i grwpiau a chorau. Ewch i'r wefan (eisteddfodcaerdydd.cymru) i weld yr holl gystadlaethau, ac i gofrestru i gystadlu. Mae'n rhaid i bawb sydd am gystadlu gofrestru trwy'r wefan, ac uwchlwytho copïau os yw hynny'n berthnasol, erbyn dydd Llun 15 Ionawr 2024.

Cofiwch fod cyfle'n parhau i noddi cystadlaethau yn ariannol. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw nawdd y gallwch ei gynnig. Mae'r pwyllgor i gyd yn gweithio'n hollol wirfoddol i gynnal yr eisteddfod, ac mae ffynonellau nawdd yn prinhau. Os na allwch gynnig nawdd, efallai y gallwch gynnig awr neu ddwy i stiwardio. Anfonwch e-bost at: cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru.

Nadolig llawen i chi i gyd, ac ry'n ni'n edrych ymlaen at eich gweld chi fis Ionawr yn Ysgol Glantaf.

# Prosiect Celf

Mae'r artist Rhiannon White o Laneirwg yn cydweithio efo artist arall, Ffion Wyn Morris o Fethesda, ar brosiect ymchwil sy'n edrych ar gynrychiolaeth dosbarth yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg. Enw'r prosiect ydy 'Dydyn Ni Ddim yn Siarad Dim Mwy' (*We No Longer Talk*).


***Ffion Wyn Morris (ar y chwith ) a Rhiannon White (ar y dde)***

Trwy gyfweliadau, gweithdai (sy'n rhad ac am ddim ac ar agor i'r cyhoedd) a chydweithio rhwng artistiaid, mae'r prosiect yn archwilio sut mae rhywun yn dysgu iaith, sut yr ymleddir dros ieithoedd brodorol, pa ieithoedd newydd sy'n dod i'r amlwg, a beth yw'r berthynas a'r rhagdybiaethau ynghylch dosbarth a'r Gymraeg. Cafodd Ffion a Rhiannon eu magu ar ystadau cyngor – Ffion ym Methesda a Rhiannon yn nwyrain Caerdydd.

Mae dogfen ar gael sy'n manylu mwy ar y prosiect. Rhowch wybod os hoffech ragor o fanylion.

*Catrin Rogers*

# Unigolion disglair mewn disgyblaethau STEM o ysgolion Rhondda Cynon Taf

Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Rondda Cynon Taf ym mis Awst 2024. Ymhlith yr atyniadau, bydd y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, arddangosfeydd, sgyrsiau, anerchiadau at bob oed, gyda'r pwyslais ar ddisgyblaethau STEM a disgyblaethau tebyg, megis, meddygaeth. Acronym Saesneg yw STEM yn cynrychioli gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.

Mewn cynnig ar gefnogi'r fenter, rwy'n creu coflen o unigolion o gyn-ddisgyblion ysgolion uwchradd RhCT a enillodd amlygrwydd mewn gyrfaoedd yn ymwneud â disgyblaethau STEM. Mae'n anodd diffinio 'amlygrwydd' yn y cyswllt hwn; bydd rhaid derbyn barn bersonol. Rwy'n edrych ar y can mlynedd diwethaf.

Byddaf yn dra diolchgar am gymorth. Ble gwell i ddechrau na'r ysgolion neu'r sefydliadau a ddaeth i fod lle bu'r unigolion disglair yn ddisgyblion? Eisoes anfonais air atynt; yn awr mae'n bryd apelio at gynulleidfa fwy.

Mae gan Gymru etifeddiaeth gyfoethog yn y gwyddorau (STEM a'r cyffelyb). Mae'n bryd dwyn hyn i sylw ehangach.

Y ffyrdd gorau i gysylltu yw trwy ebost: nevillebevans@gmail.com, neu dros y ffôn: 02920843806 a 07913257371.

Gyda diolch ac mewn gobaith cadarn. Byddai'n hyfryd cael ymateb erbyn 1 Ionawr 2024.

*Neville Evans*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**
**Rhagfyr 2023:**
3ydd – Oedfa Gymun - Delwyn Siôn
10ed – Naw Llith a Charol (am 5:00 p.m.)
17eg – Nadolig yr Ysgol Sul
24ain – Dim oedfa
25ain – Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00 a.m.)
31ain – Delwyn Siôn
**Ionawr 2024:**
7ed - Oedfa Gymun - Delwyn Siôn
14eg – Plygain (am 5:00 p.m.)
21ain – Parchedig Aled Edwards
28ain – Marc John Williams

Mae cael cip ar y gwaith paratoi a fu ar gyfer cyflwyno'r 'Gwynfydau', yn gerddoriaeth a geiriau, ac a berfformiwyd ym Methlehem ar Sul y 26ain o Dachwedd, yn un hynod o ddiddorol.
Eilir Owen Griffiths oedd yn gyfrifol am y gerddoriaeth i gyd, ac ef a gafodd y dasg, dros yr haf, o wau y geiriau, a gyflwynwyd gan chwech o'r aelodau, yn un cyfanwaith cerddorol, swynol a thrawiadol.
Ef hefyd fu'n hyfforddi Côr y Capel ar gyfer y datganiad, a threfnu'r unawdwyr a'r offerynwyr oedd yn cymryd rhan.
Rhoddwyd un neu ddwy adnod i'r aelodau hynny oedd yn paratoi'r geiriau, gyda'r gwahoddiad agored i fynd i ba bynnag gyfeiriad y dymunent ei ddilyn.
A dyna hynodrwydd y cyfan – y gwahanol ddehongliadau cyfoes o'r adnodau a gyflwynwyd.
Ceisiwch ddyfalu pa un o'r Gwynfydau (Matthew 5:3-12) a gynrychiolir gan y canlynol:
Crwydriad ar yr hewlydd ac ar y traethau, '*yn ymbil yn ddistaw am dderbyn o'n llaw.*'
'*Un weddi am heddwch gan bedwar can mil, un ddeiseb dros undod rhag difa yr hil.*'
'*Cawsant yma ddrws agored, cawsant groeso yma'n siŵr.*"
'*Roedd yn rhy galon feddal …i gario gwn a lladd ei gyd-ddyn*.'
'*Mwy na'r dagrau yw'r cariad sy'n coffáu*.'
'*Ar ôl y teithio, y creithio, y clwyfo, y rheibio, y seibio…Mynd heibio*.'
'*Fe gafodd ef ei freuddwyd a'n cymell i ddi-drais frwydrau*.'

Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr *Y Dinesydd* oddi wrth bawb ym Methlehem.

## EGLWYS Y CRWYS

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Winston Roddick yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Mary, yn Croydon. Meddyliwn am y teulu yn eu hiraeth.

Dymunwn yn dda i Rhian Melhuish sydd wedi symud i fyw i Gernyw. Pob bendith i ti Rhian.

Cafwyd noson ddifyr iawn o dan nawdd y Gymdeithas, sef 'Noson y Llyfr' pan ddaeth Jo Knell o Siop Cant a Mil i arddangos y llyfrau a'r nwyddau diweddaraf cyn y Nadolig. Cafwyd hefyd sgyrsiau diddorol gan aelodau'r Gymdeithas ar y llyfrau diweddaraf a fwynhawyd ganddynt. Diolch i Alun Tobias, Nesta Tiplady, Siân Evans a Thomas Williams am eu cyfraniadau.

Yng nghyfarfod nesaf y Gymdeithas, bydd Noson Grefftau ar gyfer y Nadolig yng nghwmni Mererid Velios.

Bu plant yr Ysgol Sul yn brysur iawn yn paratoi a chasglu bocsys esgidiau fel rhan o ymgyrch *Teams4U* i'w hanfon at blant llai breintiedig y Nadolig hwn. Diolch i'r Dr Rhiannon Evans am gydlynu'r gwaith.

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn er budd Apêl Cymorth Cristnogol tuag at yr argyfwng yn Gaza. Gwnaed elw o £430 ynghyd â thros £300 yn y Casgliad Ymadawol. Diolch i bawb a fu ynglŷn â'r trefniadau.

Rydym yn edrych ymlaen at Weithgareddau'r Nadolig gyda Gwasanaethau gan yr Ysgol Sul a'r Gymdeithas Ddrama ar 17 Rhagfyr. Bydd aelodau Coffi ar Gamera yn mynd am Ginio i'r Hen Fwthyn ar 12 Rhagfyr, ac ar ôl y Nadolig, ar 28 Rhagfyr, bydd y Daith Gerdded flynyddol, y tro hwn o amgylch Cronfa Ddŵr Llanisien, i gyfarfod ger y Ganolfan Ymwelwyr am 10.30 o'r gloch.

Trefn Oedfaon mis Ionawr:
Ionawr 7fed – Parchg Aled Edwards; Oedfa Gymun yn y bore
Ionawr 14eg – Bore: Parchg Huw Lewis; Hwyr: Parchg Ddr Alun Tudur
Ionawr 21ain – Parchg Dafydd Andrew Jones
Ionawr 28ain – Rhys ab Owen
Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl aelodau ac i ddarllenwyr *Y Dinesydd*.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Taith i Tonga**
Croeso nôl i Gwenno, Polu, Eseta a Sosefo wrth iddynt ddychwelyd o'u taith ddiweddar i Tonga lle buont yn ymweld â theulu Polu.

**Pregethwr Gwadd**
Braf iawn yn ddiweddar oedd croesawu atom y Parchg Ddr Rhodri Glyn, gweinidog newydd Capel y Ffynnon, Bangor. Cyn symud i Fangor, bu Rhodri'n gweinidogaethu yn Llansannan. Dymunwn bob bendith iddo fe a'i deulu wrth iddynt ymgartrefu ym Mangor.

**Bore Siarad Cymraeg**
Ar ôl toriad anorfod, bwriadwn ailddechrau'r cyfarfodydd ar gyfer siaradwyr Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Fe'u cynhelir ar yr ail Sadwrn ym mhob mis yn yr Hyb ym Mhen-y-dre, Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Mae'r cyfarfodydd yn rhad ac am ddim. Bydd croeso cynnes i bawb.

**Dydd Sadwrn, 9 Rhagfyr am 10.30am**
Dewch i drafod carol blygain yng nghwmni'r Athro E. Wyn James.

**Dydd Sadwrn, 13 Ionawr**
Dewch i drafod cerdd gan Gwenallt yng nghwmni Dewi George.

**Trefniadau'r Nadolig**
Sul,10 Rhagfyr am 5pm, Carolau ar y Comin.
Croeso mawr i oedfa garolau ar y comin yn yr Eglwys Newydd. Bydd diodydd poeth a danteithion Nadoligaidd ar gael. Dewch â fflachlamp a dillad cynnes.

**Sul, Rhagfyr am 10am**
Oedfa Deuluol
Yn y Tabernacl, 81 Heol Merthyr, yr Eglwys Newydd CF14 1DD.

Croeso cynnes i'r oedfa hon. Bydd llawer o ganu, hwyl, crefftau, eitemau plant a chyfle i ddysgu am y Nadolig cyntaf. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ar y diwedd.

**Sul, 24 Rhagfyr am 5pm**
Carol-oki yn y Tabernacl

Ymunwch â ni i ganu (gyda'n gilydd!) garolau o'ch dewis a myfyrio ar ystyr arbennig y Nadolig. Bydd danteithion ar gael ar y diwedd.

**Sul, 7 Ionawr am 5pm**
Oedfa Blygain yn y Tabernacl, yr Eglwys Newydd.

Dewch i fwynhau un o draddodiadau mwyaf gwerthfawr Cymru – Y Plygain.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchg Owain Llŷr Evans

**Cydymdeimlo**
Cofiwn yn annwyl a diolchgar am Marian Lake (Llanfihangel-ar-Elái). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i chwaer Audrey ynghyd â'r teulu cyfan a'u holl gyfeillion.

**Aelodau newydd**
Hyfrydwch fu cael croesawu Jen Owen a Bethan Evans yn aelodau mewn Oedfa Gymun ddechrau mis Tachwedd. Dymunwn bob bendith i'r ddwy yn ein mysg.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul mis Rhagfyr**
Edrychwn ymlaen yn fawr at arweiniad ein Gweinidog yn holl oedfaon mis Rhagfyr ac eithrio Sul olaf y mis.
**Sul 3 Rhagfyr:** yn dilyn yr Oedfa Foreol ac Ysgol Sul (9:30) cynhelir bore coffi er budd Apêl Ffynhonnau Byw; PIMS (17:00); Oedfa Gymun yr Adfent (18:00).
**Sul 10 Rhagfyr:** Oedfa i'r Teulu (9:30); Oedfa Foreol (10:30) ac Oedfa Hwyrol (18:00).
**Sul 17 Rhagfyr:** Oedfa Nadolig y Teulu (9:30) gyda pharti Nadolig i bawb i ddilyn; Oedfa Hwyrol (18:00).
**Sul 24 Rhagfyr:** Oedfa Foreol (9:30) ac Oedfa Hwyrol (18:00).
**Llun 25 Rhagfyr:** Oedfa'r Nadolig yng nghwmni ein cyfeillion yng Nghapel y Crwys (10:00); pregethir gan ein Gweinidog.
**Sul 31 Rhagfyr:** Oedfa Foreol dan arweiniad y Parchg Hywel Davies (9:30); ni fydd oedfa hwyrol. Bydd cyfle i gyfrannu tuag at Gymdeithas y Beibl a Chyngor yr Ysgol Sul yn oedfaon 10 ac 17 Rhagfyr.

**Gweithgarwch y mis**
Bydd cyfle i gymdeithasu dros bryd o fwyd nos Sul, 10 Rhagfyr (*Koinonia*, 19:30). Cynhelir dwy sesiwn 'Meddwl am yr Adfent' (5 a 19 Rhagfyr, 19:00). Bydd noson Nadoligaidd y Gymdeithas nos Fawrth, 12 Rhagfyr (19:30) yng ngofal Siân Meinir.

**Mis Ionawr**
Bydd oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul yn dilyn y drefn arferol. Byddwn yn croesawu'r Parchg Denzil John i arwain oedfaon 28 Ionawr. Bydd cyfarfodydd Seilo ar 8 a 22 Ionawr (10:00) a Bethania ar 16 a 30 Ionawr (19:00). Bydd y Gymdeithas yn dathlu'r Plygain yn Eglwys Sant Teilo, Amgueddfa Sain Ffagan, am 14:00 brynhawn Sul, 14 Ionawr ac yn croesawu Bethan a Hefin Jones i sôn am eu profiadau yn Oberammagau (2022) nos Fawrth, 23 Ionawr.


*Pobl Ifanc Salem*

## SALEM, TREGANNA

**Clwb y Bobl Ifanc** – Aeth Clwb y Bobl Ifanc ar daith benwythnos i Dre-wern, Henffordd, rhwng nos Wener 17 a dydd Sul 19 Tachwedd, gyda chriw sylweddol o bobl ifanc rhwng blwyddyn 7 a blwyddyn 13. Mae'n debyg eu bod wedi cael amser ardderchog yn rhoi cynnig ar lu o weithgareddau awyr agored a gemau adeiladu tîm. Diolch yn fawr iawn i bob un o'r 'Swogs' aeth ar y daith.

**Gweithgareddau Eraill**
**Clwb Brecwast** ar fore Mercher i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin.
Cynhelir y nesaf ar 17 Ionawr a 31 Ionawr rhwng 9.45 a 11.15.
**Clwb Coffi** – bore Gwener 8 Rhagfyr rhwng 11.00 a 12.00, ac yna yn y flwyddyn newydd. Croeso i unrhyw un ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.
**Adran Salem** – nos Iau rhwng 6.00 a 7.00. Bydd yr Adran yn dechrau nôl yn y flwyddyn newydd.

**Bedydd**
Hyfryd iawn ddechrau mis Tachwedd oedd gweld bedydd Ffredi Elis. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau!


*Ffredi a'i deulu gydag Evan*

**Rhaglen Golud**
Fel y gwyddoch, efallai, rydym wedi bod yn agor ein drysau am yn ail fore Llun i groesawu rhai sy'n dioddef o dementia, eu gofalwyr ac unrhyw un arall, i daro i mewn i gwrdd am sgwrs a phaned.
Nos Fawrth 14 Tachwedd, roeddem yn falch o groesawu Sarah Morris o Eglwys Bresbyteraidd Cymru i roi cyflwyniad adeiladol a gwerthfawr i'r rhaglen Golud. Braf oedd gweld nifer sylweddol wedi dod i gymryd rhan a chlywed yr hyn roedd gan Sarah i'w ddweud am y modd y gall prosiect Golud gefnogi pobl y mae dementia'n effeithio arnyn nhw mewn unrhyw ffordd. Dewch draw i'r sesiynau ar fore Llun.

**Gwasanaethau**
**Cofiwch am drefn gwasanaethau'r Sul dros y gaeaf.** Mae oedfa'r bore am 10.30 yn dilyn y patrwm arferol, ac rydym hefyd yn cynnal oedfa'r hwyr fel a ganlyn:
**Nos Sul gyntaf pob mis** – Oedfa yn Salem am 6.00pm o dan ofal Evan.
**Pob nos Sul arall** - Oedfa *Zoom* fer yn dilyn y patrwm a welwyd yn ystod cyfnod COVID.

**Gwasanaethau'r Nadolig**
Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at eich croesawu i gyd i'n Gwasanaethau Nadolig eleni. Dyma'r amserlen:

- 10 Rhagfyr am 10.30 – Gwasanaeth Llith a Charol
- 17 Rhagfyr am 10.30 – Gwasaneth Nadolig yr Ysgol Sul
- 17 Rhagfyr am 6.00 – Gwasanaeth y Goleuni
- 24 Rhagfyr am 10.30 – Gwasanaeth Cymun (dim gwasaneth gyda'r hwyr)
- 25 Rhagfyr am 9:30 – Gwasanaeth Teuluol

## EBENESER

**Cyngerdd**

Roedd hi'n hyfryd cael cynulleidfa lawn yn yr Eglwys Fethodistiaid, Yr Eglwys Newydd, ar nos Fercher, 15 Tachwedd i fwynhau cyngerdd bendigedig gan Gôr Caerdydd. Yn hanner cyntaf y cyngerdd, cafwyd darnau corawl cyfoethog yn amrywio o'r ysgafn i'r clasurol. Yn ogystal, pleser oedd gwrando ar Aled Wyn Thomas (tenor), Llio Rhys (soprano) a Dafydd Huw ar y piano. Cafwyd anerchiad gan Catrin Jên am apêl yr Annibynwyr eleni, sef Ffynhonnau Byw Colombia. Yn ail hanner y cyngerdd, *Requiem Op.48* Gabriel Fauré oedd uchafbwynt y noson gyda'r unawdwyr Emma Watt ac Iwan Llechid yn serennu. Cyflwynwyd torch o flodau i Gwawr gan Catrin Jên. Codwyd swm anrhydeddus iawn o £1,500.00 at yr apêl.



*Gwawr a Catrin*

**Y Cylch**

Roedd ansicrwydd wedi codi am Gaffi Cylchfan yr Eglwys Newydd yn yr Eglwys Fethodistaidd oherwydd diffyg gwirfoddolwyr, ond gwnaed penderfyniad gan yr eglwys yn ddiweddar i barhau yn agored, a hynny am dridiau yn unig, o ddydd Mawrth i ddydd Iau, gan ddechrau yn 2024. Bydd y caffi ynghau am bythefnos o 23 Rhagfyr. Mae hyn wedi bod yn newyddion calonogol i griw Y Cylch, Ebeneser, sy'n cwrdd yno bob pythefnos ar ddydd Mawrth am baned, clonc a chacen.

**Colled**

Trist oedd clywed am farwolaeth Val Scott ar 23 Tachwedd yn 80 oed ar ôl cyfnod hir o salwch. Er ei bod wedi symud i Benarth ers peth amser, cadwai gysylltiad agos â'i ffrindiau yn Ebeneser. Pob cydymdeimlad â'r teulu.

**Croeso nôl**

Braf iawn oedd cael cwmni ein gweinidog, y Parchg Ddr Alun Tudur, yn ôl yn ein plith ar Sul cyntaf Rhagfyr ar ôl tri mis o gyfnod sabothol yn ymchwilio i dwf eglwysig a phlannu cynulleidfaoedd Cymraeg newydd. Edrychwn ymlaen at gael dysgu o ffrwyth ei waith ymchwil. Mae nifer ohonom wedi'i ddilyn yn frwd ar sabothal.blog hefyd.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i deulu Glesni Whettleton a fu farw ar 27 Tachwedd ar ôl cyfnod hir o salwch. Coffa da amdani.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Roedd yn braf cael dathlu Sul Iesu Grist, Brenin yr Hollfyd, ar Sul olaf Tachwedd, a chael sgwrs a phaned wedi'r oedfa. Mae'r gwaith peintio o fewn yr eglwys bron wedi'i orffen erbyn hyn, ac mae'r goleuadau newydd yn drawiadol ac effeithiol. Bydd Offeren Gwylnos y Nadolig ar Noswyl Nadolig, prynhawn Sul 24 Rhagfyr am 4.00pm. Ni chynhelir Offeren ar 31 Rhagfyr.

Bydd y Pab Ffransis yn denu sylw'r cenhedloedd ym mis Rhagfyr pan fydd yn mynychu cyfarfod COP28. Mae'r Pab wedi ysgrifennu'n helaeth yn annog ein gofal am greadigaeth Duw. Yn y ddau lythyr *Laudate Deum* a *Laudato Si* mae'r Pab, a ddewisodd ei enw ar ôl y sant sy'n enwog am ei gariad at y greadigaeth, yn annog pobl drwy'r byd i ofalu am y greadigaeth. Bydd yn galw'n glir ar aweinwyr a gwleidyddion i gymryd eu cyfrifoldeb dros y ddaear o ddifrif, ac yn ein herio ni fel Cristnogion i barchu'r amgylchedd ac i wneud yr hyn a allwn i'w ddiogelu.

Ar ddiwedd blwyddyn sydd wedi gweld sychder a newyn yn Affrica, tanau gwyllt yn dinistrio miloedd o erwau o goedwigoedd, a llifogydd sydd wedi peri bod miliynau heb gartref, bydd ei anerchiad yn herio'r byd i gymryd y cynnydd mewn cynhesu byd-eang o ddifrif a chymryd camau i leihau'r niwed cyn iddi fod yn rhy hwyr.

Offeren Noswyl Nadolig: 4.00pm Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd. Croeso cynnes i bawb. Hefyd ar gael ar lif byw yr eglwys: www.stteilos-olol.co.uk

Offeren mis Ionawr: 28 Ionawr, 4.30pm, Eglwys Teilo Sant.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## TABERNACL, YR AIS

Cydymdeimlwn â Dr Robin Gwyndaf a'i deulu yn dilyn marwolaeth ei briod Eleri ar ôl cyfnod o salwch – bu'n aelod ffyddlon gyda ni dros y blynyddoedd. Cydymdeimlwn hefyd â'r Parchg Huw Lewis yn dilyn marwolaeth ei chwaer-efaill.

Llongyfarchiadau i nifer o bobl ifanc y Tabernacl a fu'n rhan o sioe gerdd *Geiriau'n Cyfri* gan Academi Berfformio Caerdydd a gynhaliwyd yn Ysgol Stanwell.

Mae darlith ddisglair y Parchg Ddr Rosa Hunt i adran ddiwinyddol Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru i'w gweld yn rhifyn Hydref *Y Traethodydd*. Fe draddodwyd y ddarlith ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr haf.

Llongyfarchiadau i Wyn a Megan Morris ar briodas eu hwyr Tom yn ddiweddar gydag Amy yng Nghaeredin.

Teithiodd Catrin Lloyd i Sbaen i briodas ei nai Andreas ag Isabel.

Yn ystod pythefnos cynfaf mis Rhagfyr, bydd cyfle i gasglu eitemau Adfent i'r capel; yna, ar fore Sul 17 Rhagfyr, byddwn yn eu rhoi nhw i ymwelwyr â'r Ganolfan Glyd.

Roedd aelodau o'r Clwb Darllen wedi dewis *None of This is True* y tro hwn. Roedd pawb a ddarllenodd y llyfr wedi ei fwynhau.

Cynhaliwyd Cynhadledd Chwiorydd Bedyddwyr Ewrop yn Riga, Latfia, eleni. Gwerthfawrogodd Ruth Davies y fraint o gynrychioli Cymru yn y gynhadledd.

Braf oeddd croesawu Ieuan Jones yn ôl i'r Tabernacl pan ddaeth y gynulleidfa orau ers cyn Cofid i fwynhau gwledd o'i gerddoriaeth ar yr organ.

Mawr yw ein diolch i'r canlynol am eu gwasanaeth ar y Sul yn ystod y mis – Plant yr Ysgol Sul, Helen Jones, Ein Gweinidog y Parchg Ddr Rosa Hunt, a'r Parchg Gwyn Elfyn.

## EGLWYS DEWI SANT

**Dewch i Ganu**

Cynhaliwyd ‘Dewch i Ganu Anthemau Coroni Handel’ gan Gôr Bach Caerdydd yn yr eglwys ddydd Sadwrn, 4 Tachwedd. Bu ymarferion yn y bore a pherfformiad yn y prynhawn.

**Sul y Cofio**

Yn ystod gwasanaeth y Cymun Bendigaid, 12 Tachwedd, cynhwyswyd y weithred o gofio gyda dau funud o dawelwch, a gosodwyd torch pabi coch ar y gofeb sydd yn yr eglwys.

**Gofal Ein Gwinllan**

Cynhaliwyd sesiwn o’r uchod dros *Zoom* ar nos Fercher, 15 Tachwedd. Bu’r Athro Frances Knight yn trafod ‘Alfred Ollivant a Connop Thirwall: datblybu hunaniaeth Gymreig yn yr Eglwys ynghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg’, a chafwyd anerchiad ar ‘John Hughes, Archddiacon Ceredigion’ gan y Parchg Ddr Densil Morgan.

**Coffi a Chlonc**

Cynhaliwyd y Coffi a Chlonc arferol fore Sadwrn, 18 Tachwedd, ac roedd yn dda gweld cynifer yn mwynhau sgwrsio. Cynhelir y bore coffi nesaf ar y trydydd Sadwrn ym mis Ionawr.

**Cinio Nadolig a Gwasanaeth Naw Llith a Charol**

Ddydd Sul, 10 Rhagfyr, yn dilyn gwasanaeth o’r Cymun Bendigaid a chyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul, cynhelir Cinio Nadolig yr eglwys yng Nghlwb Golff Cyncoed. Yna, ar nos Sul 17 Rhagfyr, am 7.30, cynhelir Gwasanaeth Naw Llith a Charol.

**Carolau’r Gilgant**

Cynhelir y gwasanaeth hwn ar gyfer y gweithwyr yn y swyddfeydd o amgylch yr eglwys am 1.00 brynhawn Mercher, 20 Rhagfyr. Bydd lluniaeth ysgafn yn dilyn.

**Bedydd**

Yn ystod gwasanaeth y Cymun Bendigaid, fore Sul, 5 Tachwedd, bedyddiwyd Nansi Alaw, merch Ieuan a Megan Jones. Dymunir pob bendith i’r teulu bach.

## BETHEL, PENARTH

Daeth cwmwl du drosom yn ddiweddar pan glywsom am farwolaeth ein chwaer Val Scott, yn dilyn salwch creulon a phoenus, dros gyfnod cymharol fyr. Gyda’r ymagwedd ddewr a diffwdan a nodweddai ei byw, felly hefyd y bu yn ei marw. Bu Val gyda ni yn gyflawn aelod ym Methel ers tua dwy flynedd pan ddaeth i fyw ym Mhenarth ar ôl cyfnod hir yn yr Eglwys Newydd. Yn y cyfnod hwnnw, bu’n aelod diwyd yn Ebeneser. Yn ei chyfnod byr gyda ni, amlygodd Val ffyddlondeb di-ffael i’r oedfaon ac i weithgareddau eraill. Byddwn oll yn gwerthfawrogi ei hesiampl am amser hir i ddod. Anfonwn ein cydymdeimlad cynnes at ei merch Kim ac at aelodau eraill y teulu.

Roedd Dydd Sadwrn 18 Tachwedd yn ddiwrnod y cyfarwydd a’r anghyfarwydd: sef ein Bore Coffi a Mwy, y cyfarwydd, a’r lleoliad, yr anghyfarwdd, yn ein capel. Bu’r fenter yn llwyddiant ar ddwy ystyriaeth, yn ariannol a chymdeithasol. Bu’r bwrlwm yn heintus, y cyfan yn rhoi hyder i ni fentro eto y flwyddyn nesaf.

Mis Tachwedd oedd y mis cyntaf llawn i ni ei brofi heb gwmni Kevin ein gweinidog, sy nawr yn gwasanaethu’n rhan-amser yn ein mysg. Un canlyniad i hyn oedd i ni gael ein tywys gan bedwar arweinydd gwahanol: Karen Owen, Delwyn Siôn, Denzil John, Sian Meinir. Difyr ac adeiladol iawn oedd blasu eu cyflwyniadau amrywiol a heriol. Mil diolch i bob un, yn arbennig am eu dewis o emynau oedd yn ddi-ffael yn atgyfnerthu thema’r myfyrdodau. Nid canlyniad hap a damwain mo hyn. Trawiadol oedd dewis Sian Meinir o gyfuno geiriau cyfarwydd (‘Efengyl tangnefedd, O rhed dros y byd’, rhif 844 yn *Caneuon Ffydd*) gyda thôn gyfarwydd (‘Y Preseb’, Tôn 375) sy fel arfer gyda’r geiriau ‘I orwedd mewn preseb’, rhif 450).

Wrth lunio’r nodyn hwn (Tachwedd 27ain), edrychwn ymlaen at Sul cyntaf Tymor yr Adfent pan fydd Kevin yn gofalu amdanom.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod mis Tachwedd cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parchg Dafydd Owen, Gwyndaf Roberts, Delwyn Sion a Marc John Williams.

Roedd yn braf cael cwmni ffrindiau ac aelodau yn y Bore Coffi ar 21 Tachwedd. Diolch i haelioni pawb, casglwyd swm o bron i £700 ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru.

Mae'r côr yn brysur yn paratoi ar gyfer ein gwasanaeth Nadolig ar 17 Rhagfyr pan fyddwn hefyd yn cael eitemau gan y plant ac ymweliad yn hwyrach gan Siôn Corn. Bydd côr y capel yn canu yn y gwasanaeth Plygain yn y capel ar 18 Rhagfyr, gwasanaeth a drefnir gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.

Rydym yn anfon ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau at Iola a Howel James sy'n dathlu eu priodas ddiemwnt yn ystod mis Rhagfyr.



**Nadolig Llawen**
**a bendithiol i bawb**
**oddi wrth**
**Gyngor Eglwysi**
**Cymraeg Caerdydd**

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



*Edych ymlaen i Awst 2024*

## Gwilym Dafydd

**Pen blwydd Clonc Yr Awr Hapus**



Ar fore Llun, 20 Tachwedd, roeddwn yn atgoffa pawb oedd yno yng Nghaffi Cylchfan, Yr Eglwys Newydd, ger y llyfrgell, ein bod bellach yn 22 oed – dechreuon ni ar fore Llun, 19 Tachwedd 2001.

Dangosais i ambell hen lun o'r dyddiau cynnar yng Ngwesty Pentref, Coryton – rhai ohonom yn edrych ychydig yn ifancach ar ddechrau'r ganrif!

Tan fis Mawrth 2020 cynhaliwyd y mwyafrif o'r cyfarfodydd yng Ngwesty Pentref. Ond ers cychwyn cyfnod gofidus Covid-19 rydym wedi dod ynghyd sawl gwaith ar *Zoom*, wedi cynnal sawl clonc yn yr *Hollybush* ac yng Nghaffi Cylchfan, heb anghofio eistedd ar gadeiriau dec yn y parc ger llyfrgell Yr Eglwys Newydd yn ystod misoedd yr haf.

Yn achlysurol rydym wedi teithio ambell fore Llun – pwy sy'n cofio *Glanmor's* yng Nghaerffili, *Prince's* ym Mhontypridd, Gwesty Dewi Sant lawr y Bae a dathlu'r 15 oed yn yr Hen Lyfrgell?

Croeso bawb i edrych ar fy negeseuon Trydar neu X @GwilymDafydd ar nos Sul er mwyn cael gwybod y lleoliad ar gyfer y bore Llun dilynol, dechrau am 10.45!

**Teithiau Gwylio Adar**

Erbyn hyn mae sawl person newydd wedi ymuno gyda ni ar fore Sadwrn cyntaf o'r mis. Digwyddodd hyn i raddau helaeth oherwydd cefnogaeth a chyhoeddusrwydd o gyfeiriad Rachel, Menter Iaith Caerdydd – diolch Rachel!

Daeth ugain draw i Fferm y Fforest ar fore Sadwrn heulog, 7 Hydref. Doedd y tywydd ddim o'n plaid ar fore Sadwrn, 4 Tachwedd pan ddaeth naw draw i gronfeydd dŵr Llanisien. Mae'r golygfeydd yn hyfryd yno a'r caffi yn hynod o boblogaidd. Bydd rhaid dychwelyd yno yn 2024.



Mae enwau newydd yn dod i law ychydig ddyddiau cyn ein taith gerdded gwylio adar, bore Sadwrn, 2 Rhagfyr yn Fferm y Fforest. Ac yno byddwn os byw ac iach ar fore Sadwrn, 6 Ionawr yn y flwyddyn newydd – dechrau 10.30. Da yw dweud bod nifer go dda o siaradwyr newydd wedi ymuno gyda ni yn gyson, ac mae croeso cynnes i bawb o bob oedran.

**Ar y bws i Bontypridd**

Ar fore Sul gwlyb a diflas, 19 Tachwedd, roedd gen i gyhoeddiad yng Nghapel Penderyn fel maen nhw'n galw'r gynulleidfa bellach sy'n cyfarfod ar foreau Sul yng nghanolfan gymunedol y pentref. Dwsin oedd yno, a diddorol gweld aelodau o gapeli sydd bellach wedi cau yn Aberdâr, Hirwaun ac Abercwmboi.

Daeth un wraig lan ataf ac ron i'n meddwl taw'r organyddes Ray Morgan, Hirwaun oedd hi – ond na, Anne oedd hi, gynt o fy nosbarth Cymraeg i oedolion yn Aberdâr!

Gwibiais heibio Pontypridd yn gyflym ar yr A470, a sylwais ar adeilad newydd ger Parc Ynysangharad. Ces i'r syniad o fynd draw i Bontypridd ar fws rhif 132, taith 35 munud o Coryton, a dyna wnes ar y bore Mawrth dilynol. Wedi'r cyfan, bydd miloedd lawer yn heidio yno i'r Eisteddfod Genedlaethol, ddechrau mis Awst 2024.

Sylwais ar gaffi o'r new Cwtch yn Stryd Taf ac arwyddion Cymraeg tu allan, felly mewn â fi am Americano arall eto fyth! Dechreuais siarad Cymraeg ond sylweddolais yn fuan nad pobl lleol oedd yn gweithio yno. Holais ddwy fenyw o ble ron nhw'n dod yn wreiddiol, ac Wcráin oedd yr ateb. Wel, yn naturiol, dangosais gydmdeimlad gyda nhw, ac efallai eu bod nhw erbyn hyn yn cofio ymadroddion fel 'bore da', 'diolch yn fawr' a 'ga i helpu?'

Mewn dwy awr o gerdded o amgylch Pontypridd, un person a glywais yn siarad Cymraeg – un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Gartholwg (er rydw i am ddweud Rhydfelen yma!). Yn y dderbynfa oeddwn i, yn yr hen gapel ar lan afon Taf, ger yr amgueddfa – yn hen gapel Tabernacl ger y bont enwog. Meddygfa Eglwysbach yw'r enw erbyn hyn. Oes yn wir, mae angen sawl awr hapus a chlonc debyg yn yr hen dref cyn daw'r Eisteddfod i'r ardal a'r cyffuniau maes o law!

# Cyfres deledu S4C gydag ysgolion Caerdydd ynddi

Bydd rhai o bêl-droedwyr ifanc Caerdydd a Chymru yn profi eu sgiliau a thriciau – neu *Tekkers* – mewn gemau ‘gwirion’ mewn cyfres newydd ar *Stwnsh* ar S4C.

Bob wythnos, bydd dau dîm, yn cynrychioli eu hysgolion cynradd, yn cystadlu mewn gemau yn erbyn y cloc i drio codi Tlws *Tekkers*. Y cyflwynwyr Heledd Anna, Lloyd Lewis a Huw Owen sy’n cadw trefn ar y timau a’r ffans yn y stadiwm.

Mae cic gyntaf *Tekkers* eisoes wedi dechrau ar S4C, ac mae’r gyfres yn parhau bob brynhawn Gwener am 5.05pm.

Mae bocs set hefyd wedi glanio ar S4C Clic a *BBC iPlayer* gyda chwe rhaglen. Yna, bydd bocs set chwe rhaglen arall ar gael o 23 Rhagfyr.

Ymhlith ysgolion Caerdydd sy’n ymddangos ar *Tekkers*, mae Ysgol y Wern (Pennod 1); Ysgol Bro Eirwg (Pennod 6) ac Ysgol Coed y Gof (Pennod 10). Mae timau o bob cwr o Gymru yn cystadlu yn ystod y gyfres – o Ddinbych i Lanelli; o’r Bala i Gasnewydd; ac o Abertawe i Dregaron.

Mae’r chwaraewyr yn cael eu herio mewn gemau saethu a driblo a sgiliau gôl-geidwad. Cawn hefyd weld pa mor wybodus yw’r cefnogwyr yn y stiwdio, cyn i’r timau herio’r Wal Goch yn y rownd derfynol a’r cyfle olaf i ennill, neu golli pwyntiau.

Bydd y pwysau ar Heledd, Lloyd a Huw hefyd gan mai nhw yw capteiniaid y timoedd. Gyda chystadleuaeth rhwng y tri yn rhedeg drwy’r gyfres, cawn weld pa gapten fydd yn ennill yn y nifer fwyaf o raglenni. Un peth sy’n sicr, dyw’r tri, yn bendant, ddim eisiau colli!

Meddai Lloyd, ‘Rwy’n modelu fy sgiliau ar sgiliau’r chwaraewr gorau erioed – Thierry Henry. Felly rwy’n ffyddiog taw fi fydd yn ennill ar ddiwedd y gyfres! Rwy wedi bod yn gystadleuol erioed, ac rwy’n gwybod bod Heledd a Huw yr un mor gystadleuol. Dwi’n trio bod yn gollwr gwell, ond dwi’n bendant ddim eisiau colli ar *Tekkers*.’

*Tekkers*
Bob dydd Gwener, 5.05pm

S4C s4c.cymru/stwnsh
Oddi wrth: Gareth Evans
<gareth.evans@boomcymru.co.uk>
Pwnc: Cyfres deledu S4C gydag ysgolion Caerdydd ynddi

# Ffocws 2023: Arddangosfa Ffotograffiaeth yn *Ffotogallery*; Tachwedd – 12 Ionawr 2024

Mae Ffion Denman yn ffotograffydd ac addysgwr sy’n byw yng Nghaerdydd. Mae hi’n gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Mae Ffion yn un o’r artistiaid sydd â’u gwaith yn rhan o arddangosfa Ffocws 2023 yn y *Ffotogallery* tan 12 Ionawr 2024.

Dyma grynodeb gan Ffion am yr ysbrydoliaeth sy’n sail i’w phrosiect:

Yn 1993 teithiodd fy nhad, Haydn Denman, i dalaith Chubut ym Mhatagonia, yr Ariannin, i dynnu lluniau o gymunedau Cymreig. Roedd yn teimlo bod angen iddo gyfrannu at gofnod gweledol, hanesyddol o’r Wladfa, y drefedigaeth a sefydlwyd yn yr 1860au gyda’r bwriad o ddiogelu’r iaith Gymraeg a’r diwylliant a hunaniaeth Gymreig rhag cael eu tra-arglwyddiaethu gan ddylanwadau Lloegr.


Pan oeddwn yn blentyn ac wrth dyfu, dysgwyd yr hanes hwn i mi mewn ffordd ffeithiol a rhamantus. Ym mis Chwefror 2023, deg mlynedd ar hugain ar ôl i’m tad ymweld, teithiais i’r Ariannin gan obeithio diweddaru archif fy nheulu a dogfennu’r gymuned Gymreig drwy fy lens fy hun. Fe wnaeth fy nhaith chwe mis herio'r straeon simplistig yr oeddwn wedi eu dysgu pan oeddwn yn iau, ac agor fy llygaid i'r gyd-fodolaeth gymhleth rhwng y cyfaneddwyr Cymreig a'r straeon a anwybyddwyd am Genhedloedd Cyntaf y *Mapuche* a'r *Teheulche* brodorol.

Mae'r gwaith hwn, sy'n dal i fynd rhagddo, yn archwilio gwerthoedd hunaniaeth Gymreig ym Mhatagonia, ochr yn ochr â thrafodaethau ehangach am ddadleoliad diwylliannol ac effaith diwylliannau dominyddol ar y diwylliannau sy’n fwy agored i niwed.



# Llyfrau i'r Hosan Nadolig

## *Porth* – cyfrol newydd gan Luned Aaron




Cyhoeddwyd cyfrol newydd o storïau byrion gan Luned Aaron, sef *Porth* – cyfrol ddinesig a chyfoes ar gyfer oedolion. Daeth y gyfrol yn agos i'r brig yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ymhlith y storïau, ceir profiadau ceisiwr lloches, merch ifanc feichiog, wrth iddi gyrraedd y 'Tir Diarth', sef Caerdydd. Rhai o'r themâu a drafodir yw materoliaeth, pwysau ar ferched, gofal henoed, unigrwydd a'r cyfryngau cymdeithasol.

'Dyma straeon di-fai o ran datblygiad, strwythur stori a chymeriadu. Heb amheuaeth, dyma feistr ar y grefft o adrodd stori.' LLEUCU ROBERTS


'Mae yma grefftwr o storïwr, meistr yr un digwyddiad, y ddelwedd, yr awgrym o symbolaeth a'r dweud cynnil. Campus.' ION THOMAS

'Awdur rhagorol a sylwebydd cymdeithasol craff. Mae cydymdeimlad â phobl yn hydreiddio'r gwaith cyfan.' MENNA BAINES

Pris: £8.99

Cyhoeddwr: Y Lolfa

## *Menopositif*




Pyliau o banig, colli gwallt, iselder, niwl yn y pen… dyma rai o'r symptomau mae menywod yn eu rhannu yn y gyfrol *Menopositif: Cara dy hun drwy'r Newid Mawr*. Dyma'r gyfrol gyntaf sy'n trin a thrafod y menopos yn y Gymraeg, a chafodd ei rhyddhau ar Ddiwrnod Menopos y Byd ar 18 Hydref.

Cylchgrawn *Cara*, y cylchgrawn Cymraeg i fenywod, gan fenywod ac am fenywod, sy'n cyhoeddi'r llyfr. Meinir Edwards a'i merch Efa sydd y tu ôl i'r fenter, ac maen nhw'n gyffrous am lenwi bwlch pwysig yn y farchnad. Meddai Efa: 'Mae erthyglau am iechyd menywod wedi bod yn rhan greiddiol o *Cara* ers y dechrau. Dyma ni'n penderfynu creu Arolwg Mawr y Menopos ddechrau'r flwyddyn, a daeth 200 o ymatebion o fewn 24 awr! Roedden ni'n teimlo bod yr amser yn iawn i greu cyfrol er mwyn addysgu menywod adeg cyfnod y menopos.'

Mae'r menopos yn effeithio ar hanner y boblogaeth, ac mae'r gyfrol yn nodi bod 75% o ferched yn datblygu symptomau a 25% yn datblygu symptomau dwys. Mae'r cyfnod yn un heriol i bawb, gan gynnwys partneriaid, plant, cyd-weithwyr a ffrindiau. Mae'n hanfodol bod gwell dealltwriaeth o'r menopos, ac mae cadw'n bositif yn hollbwysig. Meddai Meinir:

'Ry'n ni eisiau i'r gyfrol arfogi'r darllenwyr gyda gwybodaeth arbenigol, cynghorion defnyddiol a hanesion personol mewn ffordd hwyliog a hawdd ei ddarllen. Ry'n ni hefyd eisiau i fenywod weld y cyfnod anochel yma mewn bywyd fel rhywbeth positif, yn ddechrau pennod newydd. Wrth ddeall mwy, siarad a chwerthin am y menopos, ry'n ni'n gobeithio annog pawb i fod yn menopositif!'

Mae amrywiaeth o gyfranwyr wedi rhannu profiadau personol, gan gynnwys Bethan Gwanas, yr actores Angharad Llwyd Beech, Eluned Morgan, Menai Pitts a mwy. Mae'r cynnwys yn gyfuniad o'r emosiynol, y doniol a'r heriol, yn union fel y menopos ei hun. Un sy'n mynd trwy'r perimenopos ar hyn o bryd yw'r gantores a'r gyflwynwraig Emma Walford, sydd wedi ysgrifennu'r Rhagair i'r gyfrol. Er ei bod hi'n berson preifat, mae'n nodi bod rhannu ei phrofiad yn y gyfrol yn hollbwysig er mwyn helpu ei hun ac eraill.

Meddai Emma: 'Mae'n bryd inni chwalu'r tabŵ ac annog mwy o drafod er mwyn helpu'n gilydd. Oherwydd y diffyg trafod, ro'n i fel mwyafrif y merched yn y llyfr, yn meddwl bod rhywbeth mawr yn bod arna i. Roedd y gorbryder yn annioddefol, yr iselder, y colli hyder – ro'n i wedi colli 'fi'. Wnes i rioed feddwl mai'r menopos oedd o, achos o'n i'n meddwl 'mod i'n llawer rhy ifanc. Mae cael gwybodaeth gywir mor bwysig, ac mae darllen profiadau'r merched dewr yn y llyfr yma wedi fy helpu ac wedi gwneud i mi deimlo'n fwy positif am y bennod nesa 'ma o 'mywyd.'

Yn ogystal â'r profiadau personol, mae cyngor arbenigol a syniadau ymarferol gan arbenigwyr fel y maethegydd Elin Prydderch, yr arbenigwr menopos Dr Jayne Forrester-Paton a Dr Llinos Roberts, meddyg teulu yn ardal y Tymbl. Meddai Dr Llinos:

'Dwi'n hynod falch o fod wedi cael y cynnig i gyfrannu i *Menopositif*, cyfrol sy'n rhannu profiadau ac yn trafod pob agwedd o'r cyflwr a'r wybodaeth feddygol hollbwysig trwy gyfrwng y Gymraeg. Dwi'n gobeithio bydd y llyfr yn ysgogi trafodaeth agored ac yn rhoi mewnwelediad i'r profiad o fyw drwy'r menopos. Mae'n llyfr perthnasol i bawb, nid dim ond y menywod eu hunain.'

Mae'n gyfrol arloesol, amrywiol ac yn llawn lliw – ac yn anrheg Nadolig ardderchog!

Lluniau: Mari Gwenllian (HIWTI); Dylunio: Tanwen Haf

Pris £10; ISBN: 978 1 39995 767 0

Ar gael yn eich siop lyfrau leol neu gellir prynu copïau ar wefan cylchgrawn *Cara*: https://cara.cymru/siop

## *Codi'r Llen* – Cyfrol newydd




Lansiad Codi'r Llen

Nos Wener 24 Tachwedd, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, fe lansiwyd cyfieithiad Cymraeg o lyfr Clare Hayns, *Unveiled: Women of the Old Testament and the choices they made*. Bu golygu'r addasiad Cymraeg yn brosiect i Ruth Davies yn ystod ei blwyddyn fel Llywydd Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Cafodd gymorth gan nifer o'i chyd-aelodau: Calan McGreevy, Zohrah Evans, Anna Gruffudd Fleming, Lisa Tiplady, Gwenllian Edwards a dwy ffrind, Eluned Edwards a Bethan Whittall sy'n aelodau yn Salem, Treganna.

Mae *Codi'r Llen* yn rhoi hanesion deugain o ferched yr Hen Destament – rhai ohonyn nhw'n llai cyfarwydd megis Fasti, Rispa, Tamar ac Abisag y Sunamees. Mae pob pennod yn dilyn yr un fformat: ceir y cyd-destun Beiblaidd ar y dechrau, hanes y ferch dan sylw, myfyrdod sy'n dod â'r cyfan yn gyfoes ac yna gweddi fer. Ymchwiliodd Clare Hayns hanes un ferch o'r Hen Destament bob dydd dros gyfnod y Grawys yn y flwyddyn 2020. Crynhowyd y cyfan mewn llyfr, ac mae mab yr awdur, Micah Hayns, wedi darlunio pob un o'r merched yn gelfydd iawn gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau celf. Nid yw'n gyfrol ddiwinyddol; mae'n ddeniadol ac yn ddarllenadwy dros ben. Gwerthir *Codi'r Llen* gan Gyhoeddiadau'r Gair am bris o £13.99.

## *Bywyd Moethus a Chalon Lân*
## gan Sian Morgan Thomas

**Llyfr Newydd**
Ar gael yn fuan mewn siopau llyfrau Cymraeg:
*Bywyd Moethus a Chalon Lân: Hanes Morgan a Sarah Davies, Bryncoed, Caerdydd*
Am wybodaeth bellach, ffoniwch Sian: 02920 65 74 75, neu e-bostiwch:
huw.thomas60@ntlworld.com




# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun 20 Tachwedd croesawodd ein Cadeirydd, Shirley Williams, y gŵr gwadd, sef Huw Aaron o'r Eglwys Newydd. Mae Huw, ar y cyd â'i wraig Luned, yn enillydd gwobr Llyfr y Flwyddyn 2023. Dywedodd y Cadeirydd fod Huw yn hanu o deulu adnabyddus sy'n cynnwys sawl awdur, fel Huw ei hun, megis Dr Jane Aaron, ei fodryb, a fu'n gyfrifol am ysgrifennu llyfr diweddar dan y teitl *Cranogwen*.

Er i Huw gymhwyso fel Cyfrifydd Siartredig, y maes creadigol oedd ei hoff faes. Bellach mae'n gartwnydd, dylunydd ac awdur llawn amser, a gyda'i wraig yn berchen ar Wasg Broga gan arbenigo ar gyhoeddi llyfrau i blant, a chael plant i fwynhau darllen.

Wrth iddo sôn am rai mannau yn ei yrfa, eglurodd Huw sut y bu iddo gyfrannu cartwnau i gylchgronu megis *Private Eye* a'r *Spectator*. Yn ddiweddarach, cyfrannodd i wefan Cymru Fyw y BBC gan ychwanegu ysgafnder i'r wefan.



Huw Aaron

Bu hefyd yn gyfrifol am sefydlu'r comic Cymraeg *Mellten*, ac y mae llawer o'r deunydd gwreiddiol hwnnw yn ymddangos mewn llyfrau o Wasg Broga y dyddiau hyn.

Pwysleisiodd sawl gwaith mor bwysig yw hi i blant gael mwynhad o lyfrau, a hynny drwy i'r llyfrau fod ag elfennau cryf o ysgafnder a deunydd gweledol.

Diolchwyd iddo ar ein rhan gan y Cadeirydd, ac roedd pawb yn cytuno ein bod yn dotio at ei dalent wrth lunio cartwnau, a hynny mor gyflym!

Ar ddiwedd y noson mwynhawyd paned a chyfle i gymdeithasu, a phori drwy gynnyrch Gwasg Broga.

Atgoffwyd pawb y bydd ein cyfarfod nesaf, sef Plygain, yn dechrau am 7.00pm ac nid 7.30pm fel arfer, a hynny ar 18 Rhagfyr.

# Gwylio'r Geiniog

## Huw Aled Accountants



Yn dilyn Datganiad yr Hydref gan y Canghellor, Jeremy Hunt, dyma'r prif faterion i'w nodi:

**1. Datblygiadau cadarnhaol**

Ar gyfer gweithwyr, bydd cyfradd cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 yn cael eu lleihau o 12% i 10% o 6 Ionawr 2024. Bydd gweithiwr cyffredin ar gyflog o £35,400 yn derbyn toriad treth blynyddol o £450.

Ar gyfer yr hunangyflogedig, mae yna ddau newid mawr i Yswiriant Gwladol (YG) o fis Ebrill 2024 ymlaen:

- ***YG Dosbarth 2 yn cael ei ddiddymu:*** yn flaenorol, roedd hyn yn daliad cyfradd unffurf *(flat rate*) oedd yn ddyledus gan bob unigolyn hunangyflogedig oedd yn ennill elw llawrydd o fwy na £12,570.
- ***YG Dosbarth 4 yn cael ei leihau o 9% i 8%:*** mae hyn yn daladwy ar elw hunangyflogedig rhwng £12,570 a £50,270.

Bydd y ddau newid hyn yn arwain at arbediad treth o tua £350 i unigolyn hunangyflogedig sy'n ennill elw o £28,200.

Credyd Cynhwysol a budd-daliadau oedran gweithio eraill i gynyddu 6.7% o fis Ebrill 2024.

Bydd Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu 8.5% o fis Ebrill 2024, sydd yn werth £900 ychwanegol y flwyddyn i'r rhai sydd ar bensiwn newydd y wladwriaeth.

Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi o £10.42 i £11.44 o fis Ebrill 2024.

Bydd cwmnïau sy'n buddsoddi mewn peiriannau ac offer yn gallu parhau i dynnu'r costau hyn yn llawn yn erbyn treth gorfforaeth.

**2. Datblygiadau siomedig**

Disgwylir i safonau byw ostwng eto eleni, ac ni ddisgwylir iddynt ddychwelyd i lefelau cyn-bandemig tan 2027-28.

Dim newid i lwfans personol treth incwm a throthwyon treth cyfradd uwch, ac ni fyddant yn newid tan 2028. Wrth i gyflogau godi, bydd pawb yn talu mwy o dreth.

Er bod cyfraddau YG wedi cael eu lleihau ar gyfer gweithwyr, nid oes unrhyw newid i'r gyfradd YG Dosbarth 1 sy'n daladwy gan gyflogwyr, sy'n parhau ar 13.8%.

Cyllid ychwanegol ar gyfer tîm Rheoli Dyled y Swyddfa Dreth, sy'n adlewyrchu'r realiti y gall unigolion ei chael hi'n anodd i dalu eu biliau treth yn y blynyddoedd i ddod wrth i'r pwysau o'r argyfwng costau byw barhau.

*Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am newidiadau sylweddol i drethi a chyhoeddiadau ariannol y Llywodraeth.*

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy: Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

# Cymrodorion Caerdydd

'Ewyllys Unedig Menywod yn erbyn Rhyfel: Apêl merched Cymru at ferched America 1923-24' oedd testun darlith Catrin Stevens i'r Cymrodorion dros *Zoom* ar nos Wener, 10 Tachwedd. Eglurodd sut y darganfuwyd dogfen hardd gan swyddogion Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn y Deml Heddwch yn 2014 gan ddatgelu hanes a oedd wedi bod ynghudd ac anghofiedig am bron i ganrif. Dyma stori deiseb enfawr 1923-24 a lofnodwyd gan 390,296 o fenywod yng Nghymru i fynd 'o gartrefi Cymru i gartrefi America' i ofyn i fenywod America ddylanwadu ar eu llywodraeth ac ar yr Arlywydd i ymuno ag Undeb Cynghrair y Cenhedloedd i hyrwyddo cyflafareddu cyn codi arfau rhyfel eto, wedi cyflafan erchyll y Rhyfel Byd Cyntaf. Fel y dywed y datganiad urddasol o fewn clawr y ddogfen, neu'r 'Memorial', gofynnent am gymorth 'i drosglwyddo i'r oesau a ddêl fyd di-ryfel yn dreftadaeth dragwyddol'.


Y genhadaeth uchelgeisiol hon a ysbrydolodd sefydlu 'Partneriaeth Hawlio Heddwch' yn 2018, ac yn sgil hynny llwyddwyd i ymchwilio i gefndir y ddeiseb, cael hyd iddi yn Sefydliad y Smithsonian yn Washington, a darganfod dyddiadur un o'r prif ymgyrchwyr – Annie Hughes Griffiths.


Un agwedd ar y ddarlith oedd sôn am y trefnwyr lleol fu'n casglu llofnodion mor ddyfal yng Nghaerdydd, yn eu plith y Trysorydd, y Fonesig Magdalene Anne Llewelyn o *The Court*, Sain Ffagan; y ddirwestwraig bybyr, Tydfil Thomas o ardal y Rhath; Britannia Davies o Heol y Gadeirlan, gwraig William Davies, Golygydd y *Western Mail* a Margaret Baskerville Griffith, y Deondy, Llandaf. Collodd y ddwy olaf aelodau agos iawn o'u teulu ar faes y gad yn Ffrainc.

Erbyn hyn mae'r hanes cyfoethog hwn wedi ei gyflwyno mewn cyfrol *Yr Apêl /The Appeal* gan wasg Y Lolfa. Mae'r gist a'r ddeiseb wedi eu dychwelyd i Gymru, ac mae gwirfoddolwyr wrthi'n trawsysgrifio'r enwau fel y gall pawb ddarganfod, yng ngeiriau'r grŵp ymgyrchol Heddwch Nain Mam-gu, 'Tybed a oedd fy nain/fy mam-gu i wedi ei llofnodi?'

Fel hyn y byddwn yn cofio'r hanes, yn dathlu'r canmlwyddiant ac yn gwireddu breuddwyd a gweledigaeth ryfeddol Cymraësau 1923-24.

## Rhif: 238




**Ar Draws**
7. Mae sêr Eli wedi syrthio i fannau tanddaearol (6)
8. Llywodraethwr o hyn ymlaen (6)
10. ‘I orwedd mewn preseb rhoed Crëwr y byd,
Nid oedd ar ----- ------ na gwely na chrud’
(efel ECJ) (2,5)
11. Cylch o berth (5)
12. Llid croen brenin yr adar (4)
13. ‘Duw yn ddyn! Fy ----- gwêl
Iesu, ein Immanuel’ (cyf. anhys,) (5)
17. Mae un Tudur yn y Gogledd (5)
18. Yng nghanol bwyta’r oren mae ’na argyfwng (4)
22. ‘Wele ----- deg yn arwain
Doethion dwyrain at dy draed’ (RW) (5)
23. Mae dwli Ben yn dod mewn parseli (7)
24. Cywasgu’r ugeinwaith yn un tro (6)
25. Y rhai cyffredin fel un mewn tir gwlyb (6)

**I Lawr**
1. Rhywbeth anfad yn addysg Eleri (7)
2. Lle’r allwedd sanctaidd ar y dibyn (7)
3. Bargen ar yn ail fu swnio fel asyn (5)
4. ‘I gael gweld ein Prynwr c’redig,
Aned heddiw, ddydd -----’ (RhP) (7)
5 & 20 lawr & 21 lawr
‘Mewn llety llwyd, mewn preseb -----,
Y dwyfol Fab ddaeth inni’n -----;
I gadw dyn, i gadw dyn
Daeth Duw ei hun i fyw mewn -----‘ (JLW) (5,5,5)
6. Un yn codi o’r rhwyd yn ddangos boddhad’ (5)
9. Cwtogi eco Bryn Du rywsut (9)
14. Pum ugain llam disglair (7)
15. Debra druan mewn amgylchiadau tywyll yn adfywio (7)
16. ‘Yn lle aur, rhown lwyrgred ynddo
Yn lle thus, rhown ----- iddo’ (RhP) (7)
19. Ystyriol ar ddechrau amser seinio trwmped un diwrnod (5)
20. gweler 5 lawr
21. gweler 5 lawr

**Enillydd Croesair Rhif 236**
**Gareth a Siân Lotwick, Pen-y-lan**

**Atebion Croesair Rhif 236**

**Ar Draws:** 1. Bara 8. Mewn pryder 9. Bwystfil 10. Hadu 12. Cerdyn 14. Oferedd 15. Addewid 17. Defaid 18. Dorth 19. Concwest 21, Yn arloesol 22. Odli

**I Lawr:** 2. Ailwreiddio 3. Amos 4. Llwyfan 5. Apelio 6. Cynhaeaf 7. Brau 11. Dref i’w sail 13. Diwrthdro 16. Dicllon 17. Dynesu 18. Dryw 20 Wylo

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Chwefror 2024
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Treftadaeth Chwaraeon ar y Maes 2024

Mae cynlluniau diddorol ar y gweill i godi statws treftadaeth chwaraeon yng Nghymru, drwy nodi ac amddiffyn casgliadau, amrywio cynulleidfaoedd a llawer mwy.

Rydym yng nghanol trefnu rhaglen o ddarlithoedd a sgyrsiau ynglŷn â threftadaeth chwaraeon ar gyfer y Maes ym Mhontypridd yn 2024. Bydd eu themâu ynglŷn â'r dref a'i chyffiniau a bwrdeistref Rhondda Cynon Taf. Er enghraifft, mae Andrew Hignell wedi cytuno i siarad am hanes Clwb Criced Morgannwg, ac mae Cymdeithas Dreftadaeth Everton wedi cytuno i sôn am Ben Williams o Gwm Cynon a oedd yn gapten dylanwadol y clwb yn y 1930au.

Hoffwn glywed oddi wrth unrhyw un sydd â rhywbeth yr hoffent ei rannu ar y Maes.

*Russell Todd*
*Cydlynydd dros Gymru i Sporting Heritage CIC*
russell@sportingheritage.org.uk
07749 279481

**Gwledd o weithgareddau...**

*Gyda'r Nadolig – a diwedd 2023 – yn agosáu, hoffai pawb ym Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg ddiolch i chi am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Dyma flas i chi o rai o'r gweithgareddau sydd wedi'u trefnu cyn y Nadolig, a'r cyrsiau newydd fydd yn dechrau yn gynnar yn 2024.*

**Nadolig Ddoe a Heddiw – prynhawn Gwener, 15 Rhagfyr, 5.30pm**

Dewch â'r teulu i Ysgol Bro Edern brynhawn Gwener, 15 Rhagfyr i fwynhau sioe Nadoligaidd i'r teulu cyfan. Yng nghwmni cast *Nadolig Ddoe a Heddiw* gan 'Mewn Cymeriad', awn ar daith hudolus drwy Nadoligau'r gorffennol trwy lygaid plentyn heddiw. Mae'r sioe yn cynnwys caneuon a dawnsio, ac mae'r tocynnau ar gael am £5 ar wefan Menter Caerdydd. https://mentercaerdydd.cymru/event/nadolig_ddoe_a_heddiw/24

Ym Mro Morgannwg, cynhelir Parti Nadolig ar y cyd â 'Dysgu Cymraeg y Fro' a 'Cymraeg i Blant' yng Nghanolfan Addysg Gymunedol Palmerston, Y Barri, ar brynhawn Gwener, 15 Rhagfyr rhwng 4.00 a 6.00pm. Yn ogystal â hwyl a sbri i'r plant lleiaf yng nghwmni Do Re Mi, bydd celf a chrefft, canu carolau ac ymweliad gan Siôn Corn! Mynediad am ddim.

Cofiwch hefyd am sesiynau tymhorol 'Deffro'r Synhwyrau' yn Llyfrgell Penarth ar gyfer babanod a phlant bach sy'n dechrau bore Llun, 4 Rhagfyr. (Tair sesiwn am £15 – 4, 11, 18 Rhagfyr am 10.45-11.30pm. I gofrestru: menterbromorgannwg.cymru)

**Sgwrs y Mis – 7.30pm nos Iau 14 Rhagfyr**

Yn sgwrs ola'r flwyddyn, 'Nodau'r Nadolig: Cerddoriaeth y Nadolig Cymreig', cawn ddysgu mwy am y wledd o gerddoriaeth sydd yng Nghymru i ddathlu'r Nadolig yng nghwmni'r cerddor a chyfansoddwr, Sioned Webb. Bydd cyfraniadau hefyd gan ŵr Sioned, y cerddor a'r canwr gwerin Arfon Gwilym, fydd yn sôn am draddodiadau'r Plygain. Sylwer y *bydd cynnwys y sgwrs hon yn wahanol i sgwrs Sioned ac Arfon ar gyfer y Cymrodorion ar ddechrau'r mis.*

Dr Rebecca Thomas, Darlithydd mewn Hanes Canoloesol ym Mhrifysgol Caerdydd, fydd yn ymuno â ni yng nghyfarfod cyntaf 2024 gyda sgwrs am 'Y Llychlynwyr yng Nghymru' (nos Iau, 18 Ionawr, 7.30pm ar *Zoom*).

**Cymru'r Beirdd – 2.00pm ddydd Mawrth 16 Ionawr am bedair wythnos**

Môr a mynydd, gwlad a thref – dewch i grwydro Cymru yng nghwmni ein beirdd. Mewn cwrs pedair wythnos ar Zoom, bydd yr Athro Christine James yn ein tywys trwy amrywiaeth o gerddi a ysbrydolwyd gan lefydd gwahanol. Croeso i chi ddod â brechdanau a fflasg gyda chi, ond fydd dim angen eich esgidiau cerdded ar gyfer y teithiau rhithwir a hamddenol hyn!

**Mewn Tiwn – 11.30am ddydd Llun 18 Rhagfyr**

Ymunwch â ni yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina fore Llun, 18 Rhagfyr i ddathlu'r Nadolig yng nghwmni'r gantores/gyfansoddwraig o sir Benfro, Lowri Evans, sy'n rhan o gynllun *Live Music Now*. Bydd y cyngerdd yn dechrau am 11.30am, ond dewch yn gynnar i fwynhau paned a mins pei! Does dim angen tocyn ac mae'r mynediad yn rhad ac am ddim. Bydd y cyngerdd nesaf ar ddydd Llun 26 Chwefror.

**Ymweliad â Sain Ffagan – bore Iau, 25 Ionawr 2024**

Hoffech chi wybod mwy am draddodiadau Santes Dwynwen? Ar ddiwrnod y cariadon, dydd Iau, 25 Ionawr, byddwn yn cynnig ymweliad arbennig â Sain Ffagan a sgwrs arbennig am eu casgliad o lwyau caru yng nghwmni Uwch Guradur Bywyd Diwylliannol yr Amgueddfa Werin, Fflur Morse. Mae'r ymweliad, sy'n rhad ac am ddim, yn cael ei gynnal rhwng 10.30am a 12.30pm, ac mae niferoedd yn gyfyngedig i 15.

**Laffwyl – nos Iau, 25 Ionawr 2024**

Ar noson Santes Dwynwen, beth am fynd ar ddêt i dafarn Parc Fictoria ar gyfer sesiwn nesaf Laffwyl? Yn diddanu'r gynulleidfa ar 25 Ionawr bydd y digrifwyr Carwyn Blayney, Caryl Burke, Geth Evans a Katie Gill-Williams.

**Mynediad am Ddim – nos Sadwrn, 27 Ionawr 2024. Drysau'n agor am 6.30pm**

Angen rhywbeth i godi calon yn y flwyddyn newydd? Beth am brynu tocyn i weld un o grwpiau gwerin mwyaf poblogaidd Cymru ar noson gyntaf eu taith drwy Gymru? Mae tocynnau ar gyfer gig Mynediad am Ddim yn Y Barri ar gael ar wefan Canolfan y Celfyddydau Memo: https://memoartscentre.co.uk/Shows/mynediad-am-ddim/

**Ionawr: Gweithgareddau i'r Plant**

Cofiwch y bydd y Clybiau Dawns a Drama yn dychwelyd am dymor newydd yn y flwyddyn newydd a Gweithdai Gwyddoniaeth *SparkLab* yn cael eu cynnal yn ysgolion Y Berllan Deg a Melin Gruffydd. Cadwch lygad ar y wefan hefyd ar gyfer ein Gweithdy Danteithion Dwynwen ar ddydd Sadwrn, 27 Ionawr gyda ryseitiau blasus i dwymo'r galon.

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda – edrychwn ymlaen at eich gweld chi cyn bo hir!*

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru**

**Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg**

**https://www.instagram.com/mentercaerdydd/ https://www.instagram.com/menterbromorgannwg/**

**E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888**

